



Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2022



Cynnwys

Adroddiad y Cadeirydd	4
Adroddiad Prif Weithredwr y Grŵp	6
Sut ydym yn gweithredu	8
Perfformiad ariannol	14
Strwythur y Grŵp	16
Gwerth am Arian	18
Adrodd am weithgarwch Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu	20
Datganiad o Gyfrifoldeb y Bwrdd	44
Adroddiad yr Archwilydd	46
Datganiadau ariannol	50
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol	53

Ein gweledigaeth yw:

“

*twf cadarn a chynaliadwy er
mwyn gwneud gwahaniaeth i
fywydau, cartrefi a chymunedau
pobl*


”

Cymunedau ledled Cymru

Mae gennym dros **12,300 o eiddo** yn cartrefu mwy na **20,000 o breswylwyr** mewn **14** awdurdod lleol

Cyfanswm cartrefi **12,325**

8,355	Anghenion cyff redinol
2,333	Ymdeol
280	Gofal Ychwanegol
240	Cymorth
1,112	Perchnogaeth cartref
5	Uned masnachol



Ar 31 Rhagfyr 2022

Adroddiad y Cadeirydd



Alex Ashton
Cadeirydd y Bwrdd

Roeddwn yn hynod falch o gael cais gan fy nghyd aelodau ar y Bwrdd i barhau i gyflawni rôl Cadeirydd Bwrdd Grŵp Tai Wales & West am bedwaredd blwyddyn. Yn dilyn y blynyddoedd cythryblus diwethaf, roeddwn yn credu y byddai 2022 yn flwyddyn dawel efallai, ond yn lle hynny, mae wedi bod yn flwyddyn arall o sialensiau ar gyfer ein sefydliad ni a'r rhai sy'n dibynnu arnom.

Disgrifiwyd y digwyddiadau a welwyd dros y blynyddoedd blaenorol fel rhai nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen. Ar ôl Brexit a phandemig Covid, gwelwyd yr argyfwng costau byw yn 2022, a gafodd effaith ddifawr ar ein preswylwyr, a bu'n rhaid i ni chwilio am ansoddeiriau newydd i ddisgrifio'r sefyllfa yr oeddem oll yn ei hwynebu. Gwelwyd chwyddiant yn codi i lefelau nas gwelwyd eu tebyg ers degawdau, ac mae costau eitemau sylfaenol fel bwyd a thanwydd yn uwch nag yr ydym wedi eu gweld erioed yn ystod ein hoes. Bu'r ymateb cyfunol i'r argyfwng diwethaf yn rhyfeddol, wrth i bobl a busnesau fynd yr ail filltir i gadw pobl yn ddiogel ac yn iach. Bu gofyn sbarduno'r un ymateb i'r argyfwng costau byw.

Yn Nhau Wales & West, rydym yn darparu tai ar gyfer rhai o'r bobl tlotaf a mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae ein preswylwyr yn cael eu heffeithio gan y prisiau sy'n codi yn fwy na'r rhan fwyaf o bobl, gan bod eu gwariant ar hanfodion fel

gwres a bwyd yn gyfran uwch o'u hincwm. Rydym wedi ceisio helpu gymaint ag y gallwn a chymeradwyodd y Bwrdd y cam o gynyddu ein hadnodd swyddogion cymorth tenantiaeth er mwyn helpu preswylwyr wrth iddynt gyllidebu a manteisio ar gymorth ariannol. Yn ogystal, cytunom ychwanegu at gynllun banc tanwydd Cymru i breswylwyr cymwys a chynnig llinell gymorth 'Bywyd a Chynnydd' rhad ac am ddim i breswylwyr. Mae'r linell gymorth hon yn cynnig cymorth, arweiniad, cyngor proffesiynol a gwasanaeth cwnsela hollol gyfrinachol i breswylwyr 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn.

Mae'n amlwg nad yw'r argyfwng drosodd, a byddwn yn parhau i helpu a chynorthwyo ein preswylwyr yn y ffyrdd gorau y gallwn wneud hynny. Mae'r Bwrdd a minnau yn hynod o falch o'r ymdrechion hyn a wnaethom ac ymdrechion Anne, Prif Weithredwr y Grŵp, a phob aelod o staff yn y Grŵp am eu gwaith caled. Er gwaethaf amgylchiadau mor anodd, rydym wedi parhau i wneud gwahaniaeth i fywydau, cartrefi a chymunedau.

Bu'n rhaid i'n staff addasu er mwyn delio â chymaint dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn parhau i gyfathrebu, boed hynny wyneb yn wyneb neu dros Teams. Rydym wedi creu lleoedd cydweithredol yn ein swyddfeydd, sy'n defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf er mwyn annog cydweithio. Rydym wedi



INVESTORS IN PEOPLE™
Rydym yn buddsoddi mewn Pobl Platinwm

buddsoddi yn yr offer cywir sy'n caniatáu i'n staff weithio mewn ffordd effeithlon, yn y lleoliad sydd fwyaf addas i'w dyddiaduron.

Mae'r ffyrdd newydd hyn o weithio wedi dwyn buddion gwych i'r staff o ran eu lles a'u bywyd gwaith, ond maent wedi arwain at sialensiau o ran cynnal cysylltiad, diwylliant ac agweddau ar gyfathrebu. Yn ystod y flwyddyn, bu'r staff yn

canolbwyntio ar Ffordd Grŵp Tai Wales & West ac ar ein helpu i sicrhau ein bod yn diogelu ein diwylliant a'r lle arbennig i weithio a gynigir gan Grŵp WWH. Mae'r lle arbennig yr ydym wedi'i greu yn golygu ein bod yn parhau i fod yn sefydliad safon byd sydd wedi sicrhau tair seren gan gynllun Cwmnïau Gorau, ac rydym wedi llwyddo i gadw gfael ar ein statws Platinwm Buddsoddwyr mewn Pobl.

Wrth i mi fyfyrio am y blynyddoedd diwethaf, yr hyn sydd wedi fy nharo i yw'r rôl y mae ein sefydliad yn ei chyflawni mewn cymdeithas, a dibyniaeth ein preswylwyr a'n rhanddeiliaid arnom. Wrth i mi edrych ymlaen, mae'r byd yn ymddangos fel lle ansicr o hyd, ond rydw i'n sicr o'r ffaith y byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ddatrys y problemau cywir gyda'n preswylwyr: *un unigolyn, un cyswllt, un cam ar y tro.*

Agorodd Alex Ashton, Cadeirydd Bwrdd WWH, ystafell 'Cambria' yn Nhŷ Ronald McDonald yng Nghaerdydd.

Darparodd WWH nawdd ar gyfer yr ystafell trwy gyfrwng ei chronfa Gwneud Gwahaniaeth.

Mae Elusennau Ronald McDonald House y DU yn cynnig cymorth amhrisiadwy i deuluoedd pan fyddant ei angen fwyaf. Trwy ddarparu llety o ansawdd uchel yn rhad ac am ddim, maent yn cynnig y cyfle i gannoedd o deuluoedd aros yn agos i'w plentyn sâl pan fyddant yn yr ysbyty, gan dreulio amser fel teulu i ffwrdd o'r wardiau ysbyty.



Adroddiad Prif Weithredwr y Grŵp



Anne Hinchey
Prif Weithredwr y Grŵp

Fel y dywedodd y Cadeirydd, rydw i hefyd yn falch o'r ffordd yr ydym wedi gweithio trwy gydol y flwyddyn er mwyn parhau i wneud gwahaniaeth i fywydau, cartrefi a chymunedau ac rydw i'n dymuno estyn fy niolch i bob aelod o staff ar draws y Grŵp am eu gwaith caled yn ystod y cyfnod hwn.

Mae hi wedi bod yn flwyddyn heriol ac mae'r codiad o ran chwyddiant wedi effeithio ar ein sefyllfa ariannol ni hefyd, yn ogystal â sefyllfa ariannol ein preswylwyr. Mae ein costau wedi codi yn uwch na'n hincwm, yr oedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi cap ar hwn dan chwyddiant yn 2022. Mae hyn wedi golygu bod prif fetrig ariannol y Gymdeithas, llif arian rhydd, wedi gostwng yn ystod y flwyddyn i £2.3m o £6.9m yn ystod y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, rydym yn ddigon cryf i wynebu'r storm dros y tymor byr, gan ganolbwyntio ar hylifedd ac effeithiolrwydd ein strategaeth trysorlys, lle y mae ein holl fenthyciadau yn rhai ar gyfradd sefydlog, ac mae hyn yn ein cysgodi rhag y codiad cyflym mewn cyfraddau llog a welwyd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Yn ystod cyfnodau anodd, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn dal ati i wau a chanolbwyntio ar wasanaethau craidd, sy'n golygu darparu tai ar gyfer y rhai sydd yn yr angen mwyaf. Felly, penderfynom roi'r gorau i fod yn ddarparwr gofal, a gwerthom ein his-gwmni gofal, Mentrau Castell, dan drefniant pryniant gan y rheolwyr yn fuan ar ôl

diwedd y flwyddyn. Ni fu hwn yn benderfyniad hawdd, ond roeddem yn teimlo mai hwn oedd y penderfyniad cywir i bawb dan sylw, a hoffem dymuno pob llwyddiant i'r tîm rheoli wrth iddynt barhau i redeg Mentrau Castell fel cwmni annibynnol.

Mae'n bwysig hefyd ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n iawn dros y tymor hir, yn ogystal ag ymateb i ddigwyddiadau presennol. Mae gennym safonau clir ar gyfer popeth yr ydym yn berchen arno ac rydym yn glir bod angen i unrhyw beth yr ydym yn berchen arno ddarparu cartref o ansawdd uchel i'n preswylwyr dros y tymor hir iawn. Wrth i ni adolygu'r hyn sy'n iawn i ni, rydym wedi dod i'r casgliad bod rhai ardaloedd daearyddol lle y mae landlordiaid eraill mewn sefyllfa well i wneud gwahaniaeth i breswylwyr a'u cymunedau nag yr ydym ni. Felly, eleni, rydym wedi gwerthu bron i 400 o gartrefi yn ardal Abertawe, RhCT a Machynlleth i landlordiaid cymdeithasol eraill. Gwarged safonol y Gymdeithas oedd £5.3m, yr ychwanegwyd ato gan symudiadau cyfrifyddu yr elw a wnaethpwyd o werthu'r cartrefi hyn, gan godi swm y gwarged a adroddwyd i £22.7m.

Mae mwyafrif helaeth ein cartrefi yn rhai y gallwn deimlo'n falch ohonynt, nawr ac yn y dyfodol, ac maent yn cynnig amgylchedd diogel i'n preswylwyr i'w galw yn gartref. Pan na allwn greu'r amgylchedd hwn, hyd yn oed gyda chymorth buddsoddi da, byddwn yn cael gwaged ar eiddo



anaddas, gan neilltuo'r arian a ddaw o wneud hyn i'r gwaith o adeiladau cartrefi modern o ansawdd uchel. Pan fyddant yn addas, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein cartrefi presennol, gan ei bod yn bwysig cadw ein preswylwyr yn ddiogel.

Llwyddom i gynyddu ein buddsoddiad i lefel fwy normal o £12.0m yn 2022 ar ôl i gyfyngiadau'r pandemig gyfyngu ar ein gallu i fuddsoddi dros y blynyddoedd diwethaf.

Roedd y gwaith o adeiladu cartrefi newydd wedi parhau ar gyflymder sylweddol, er gwaethaf y sialensiau yn y sector. Cwblhaom 273 o gartrefi rhent newydd yr oedd angen dybryd amdanynt yn ystod 2022, a byddwn yn darparu llawer mwy dros y blynyddoedd nesaf. Yn ogystal, darparom

14 o gartrefi perchentyaeth cost isel, gan helpu'r rhai sy'n dymuno bod yn berchen ar eu cartref eu hunain, ond na allant fforddio talu pris llawn y farchnad. Byddwn yn gwneud mwy o hyn dros y blynyddoedd i ddod, wrth adeiladu ein cartrefi ein hunain ac mewn partneriaeth ag adeiladwyr tai. Mae gennym 426 o gartrefi sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd, a dros 1,000 o blotiau pellach sy'n rhan o'n cynlluniau datblygu ar gyfer y dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi prynu'n ôl 21 eiddo a werthwyd dan yr hen gynllun Hawl i Brynu, gan sicrhau eu bod yn gartrefi cymdeithasol unwaith eto, sydd ar gael i'w gosod i'r rhai yn yr angen mwyaf. Yn ogystal, rydym wedi llwyddo i brynu 35 eiddo gan Gymdeithas Tai Habinteg yn Wrecsam, yr oeddent wedi

cynnig eu gwerthu fel rhan o'u hadolygiad nhw o ardaloedd lle y mae landlordiaid eraill mewn sefyllfa well i wneud gwahaniaeth. Adeiladom y cartrefi hyn ar gyfer Habinteg yn y 1980au yn wreiddiol, felly roedd hi'n braf gweld y cartrefi hyn yn "dod gartref".

Ar ddiwedd y flwyddyn, rydym bellach yn berchen ar neu'n rheoli 12,325 o gartrefi ar draws Cymru gyfan.

Dros y tudalennau nesaf, byddwn yn sôn am y ffordd yr ydym yn gweithredu. Mae gennym ffordd o weithio, sef Ffordd Grŵp Tai Wales & West, sy'n caniatáu i ni wneud y peth iawn mewn ffordd effeithlon ac effeithiol, dro ar ôl tro, ac mae hyn yn golygu ein bod mewn sefyllfa dda i barhau i wneud gwahaniaeth i fywydau, cartrefi a chymunedau pobl.



Bellach, mae Ffordd Yr Haearn yn cynnig cartref i dros 340 o bobl. Symudodd y preswylwyr olaf i mewn i'r datblygiad sy'n cynnwys 100 o gartrefi yn ardal Grangetown, Caerdydd, yn ystod yr haf 2022.

Roedd Stephanie, sy'n fam, ac a welir yn y llun gyda Phrif Weithredwr Grŵp WWH, Anne Hinchey, ymhlith y preswylwyr cyntaf i symud i mewn gyda'i dau o blant.

Sut yr ydym yn gweithredu

Mae gan bob sefydliad ei iaith ei hun, ei ymadroddion ei hun a geiriau y mae'n eu ffafrio ac yn eu defnyddio yn aml. Nid ydym ni yn wahanol yn hyn o beth, ac mae dau o'r ymadroddion yr ydym yn eu defnyddio yn aml wedi bod yn arbennig o berthnasol eleni. Y cyntaf yw 'dal ati i wau', ymadrodd a ddefnyddiwyd ers canol y 1800au i annog pobl i ganolbwyntio ar yr hyn y maent yn ei wneud yn dda ac yn ei wybod, ac i beidio gadael i bethau eraill dynnu eu sylw.


Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi canolbwyntio ar ein busnes craidd, ac nid ydym yn ymddiheuro

am wneud hynny. Rydym wedi adeiladu bron i 300 o gartrefi newydd, rydym wedi cynnal a chadw ein cartrefi i safon da gan fuddsoddi £12.0m mewn gwaith cynnal a chadw hirdymor, ac rydym wedi gofalu am y bobl sy'n eu galw yn gartref iddynt. Nid yw hyn fyth wedi bod yn fwy priodol a dyma'r hyn y mae ein cwsmeriaid wedi ei ddisgwyl gennym yn ystod y cyfnod anodd yr ydym oll wedi byw trwyddo eleni.

Yr ail ymadrodd yw 'gwneud y peth iawn'. Mae'r hyn sy'n iawn yn adlewyrchu ein gwerthoedd ac mae'n berthnasol i'r ffordd

yr ydym yn gweithredu ac yn ymddwyn tuag at ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid. Nid y peth iawn yw'r hyn sy'n gwneud elw, sy'n rhad neu'r hyn y bydd pobl yn fodlon ei oddef. Hyd yn oed pan na fyddwn yn siŵr o'r hyn sy'n iawn, rydym i gyd yn gwybod beth sy'n anghywir ac sy'n annheg yn reddfol. Mae ein hymdeimlad o ddiben cymdeithasol, ein cwmpawd moesol, yn deillio o set gadarn o werthoedd ac mae'n ein tywys wrth i ni wneud ein penderfyniadau o ddydd i ddydd am yr hyn sy'n iawn, ac adlewyrchir hyn yn yr adborth cadarnhaol a gawn gan ein cwsmeriaid sy'n ymddiried ynom.

Ffordd Grŵp Tai Wales & West



Ffordd Grŵp Tai Wales & West yw ein ffordd ni o redeg y sefydliad, fel ei fod yn parhau i sicrhau perfformiad rhagorol a diogelwch ariannol. Mae'r dull gweithredu yn gweithio, gan sicrhau bod ein cwsmeriaid yn ymwneud â siapio a chynllunio'r gwasanaethau y maent yn eu cael. Bu teilwra'r gwasanaeth a ddarparir er mwyn bodloni anghenion penodol pob cwsmer mor bwysig yn ystod y pandemig, ac mae wedi bod yn bwysicach fyth yn ystod 2022 wrth i bobl ganolbwyntio ar gau deupen llinyn ynghyd.

Rydym yn gweld ein busnes fel cyfres o systemau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael cyswllt gyda chwsmeriaid ac mae'r gweddill yn rhai a elwir yn rhai "cefn swyddfa" yn aml. Rydym yn canolbwyntio ar wella perfformiad y systemau hyn yn barhaus. Rydym yn defnyddio ein hegwyddorion gweithredol er mwyn ein helpu i ganolbwyntio ar welliant parhaus ein systemau,

ac ar ddatblygu gallu ychwanegol mewn systemau rheng flaen yn arbennig er mwyn delio â'r galw sy'n cynyddu a welom yn ystod y flwyddyn heriol yr ydym oll wedi'i chael yn ystod 2022, mewn ffordd effeithlon. Mae pobl yn deall pan na fydd pethau yn mynd fel y dylent, neu pan na fyddant yn cynnig cymaint â'r disgwyl, ond maent yn llawer llai goddefgar pan welir yr un camgymeriadau yn cael eu gwneud dro ar ôl tro, neu pan na welir bod ansawdd y gwasanaeth yn gwella. Mae ein preswylwyr yn disgwyl i ni fod yn fwy effeithlon fyth, gan ddangos eu bod yn sicrhau gwerth am y rhent y maent yn ei dalu.

Mae technoleg yn parhau i gynnig sylfaen ar gyfer y gwaith gwella yr ydym yn ei wneud wrth i ni ddatblygu'r seilwaith presennol ac ychwanegu gallu i wella effeithlonrwydd. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i ddatblygu cynlluniau talu pwrpasol er

mwyn rheoli cyfrifon rhent ac rydym wedi symleiddio'r broses osod, sydd wedi gwella effeithlonrwydd a helpu staff i gynnig cymorth gwell i gwsmeriaid. Dangosir astudiaeth achos am y gwaith a wnaethom ar ein system rheoli tenantiaeth ar y tudalennau nesaf.

Er gwaethaf yr argyfwng costau byw presennol, ni allwn anghofio'r ffaith bod angen mwy o gartrefi arnom. Fel cenedl, ni allwn anwybyddu'r sefyllfa lle y mae miloedd o bobl yn byw mewn llety dros dro, a nifer ohonynt yn byw mewn gwestai gwely a brecwast am fisoedd, fel pe bai hyn yn rhan o fywyd a'r byd yr ydym yn byw ynddo. Mae'r anghydraddoldeb sy'n cael ei greu rhwng y rhai sydd â chartref a'r rhai heb gartref yn gwaethygu'r anghydraddoldeb a welir ym myd addysg, iechyd a chyflogaeth. Mae cartref yn hanfodol. Dangosir ein gwaith i ddatblygu cartrefi yn ystod y flwyddyn ar dudalennau 12 ac 13.



Rydym wedi cwblhau chwe chartref eco newydd yn ddiweddar yn Llys Capel yn Llaneurgain, Sir y Fflint, ar safle hen eglwys.

Gwella'r ffordd yr ydym yn rheoli ein tenantiaethau

Fel rhan o'n prosiect parhaus i greu ein system weithredu ein hunain gan ddefnyddio Microsoft Dynamics, lansiodd ein System Rheoli Tenantiaeth (TMS) newydd yn 2022. Yn yr un modd â'n modiwlau eraill o fewn y system weithredol, cynhaliwyd y gwaith cwmpasu a dylunio ar gyfer y TMS trwy sicrhau mewnbwn gan yr holl staff sy'n ymwneud â'r broses osod. Seiliwyd y cwmpas ar y diben a'r hyn sy'n bwysig ar gyfer y system osod, yn unol â'r hyn a ddeallwyd o ystyried y galw ymhlith preswylwyr.

Mae'r system yn hawdd i'w defnyddio ac mae'n caniatáu i'r defnyddiwr ddilyn proses ein camau gwerth gosod, sy'n golygu y gallwn fanteisio ar weithgarwch adrodd manwl ac amserol o ran gwybodaeth am eiddo gwag. Bellach, anfonir y wybodaeth hon at bob aelod o staff yn y broses yn awtomatig, fel y gall y staff perthnasol gychwyn eu rhan nhw o'r broses osod.

Mae'r system yn hyblyg iawn ac mae modd ei haddasu, ac fe'i cynlluniwyd i ymdopi â gweithrediad Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) yn 2023. Ynghyd â'r modiwl rhenti yr ydym eisoes wedi'i greu, ceir dangosfwrdd ar gyfer pob Swyddog Tai erbyn hyn, sy'n

dangos y statws rhent a gosod presennol yn eu hardal nhw, ac sy'n helpu i dywys eu gwaith er mwyn gweithio gyda phreswylwyr i'w helpu i dalu eu rhent a'u gwaith er mwyn

sicrhau y caiff cartrefi eu gosod yn gyflym. Mae hyn wedi gwella'r effeithlonrwydd ac mae'n helpu staff i ddarparu cymorth gwell i'n preswylwyr.

“

“Mae system TMS wedi symleiddio'r prosesau yr ydym yn gweithio ynddynt yn ddyddiol. Mae wrth wraidd popeth a wnawn. Gellir gweld popeth mewn un man ac mae bellach yn cael ei gofnodi mewn ffordd electronig ac mae ar gael i ni yn gyflymach nag o'r blaen. Yn ogystal, hwn yw'r man lle y gall y Rheolwr Tai gael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ardal. Bydd pob adran yn cael eu hysbysu o ddiweddariadau a newidiadau ac rydym yn teimlo bod yr awgrymiadau a'r cyfleuster llenwi awtomatig yn help mawr er mwyn ein tywys trwy'r broses”

Meryl, Swyddog Tai

“Mae'r TMS newydd yn caniatáu cynllunio, hyblygrwydd a chyfathrebu gwell fel Grŵp”

Nicole, Rheolwr Gweithrediadau, Cambria

“Mae'r system newydd wedi gwneud ein gwaith o ddydd i ddydd yn fwy syml. Mae gwybodaeth a dogfennau yn fwy hygyrch a gall unrhyw aelod o'r tîm droi atynt. Cedwir yr holl fanylion personol yr ydym yn eu cadw am geisiadau mewn ffordd ddiogel.”

Shona, Cynorthwydd Dewisiadau Tai

“Mae'r system TMS newydd wedi cynnig budd i'r tîm gwresogi mewn sawl ffordd. Bu gostyngiad o ran nifer y negeseuon e-bost dilynol. Mae cael yr holl wybodaeth mewn un man wedi bod yn help mawr ac mae wedi arbed amser a rhyddhau adnoddau. Ni chaiff unrhyw eiddo ei hepgor ac mae wedi sicrhau bod ein heiddo yn sicrhau cydymffurfiaeth lawn.”

Lucy, Rheolwr Trwsio

”


Mae'r system wedi:

- ✓ Symleiddio'r broses a'r system
- ✓ Gwella perfformiad
- ✓ Gwella cyfathrebu
- ✓ Sicrhau ymateb cyflymach
- ✓ Lleihau cymhlethdodau sy'n ymwneud â'r cyflenwad ynni mewn eiddo gwag
- ✓ Lleihau gwastraff
- ✓ Symleiddio cyflenwi
- ✓ Caniatáu gwaith cynllunio a pharatoi gwell
- ✓ Sicrhau mwy o gynhyrchiant, effeithlonrwydd a hyblygrwydd
- ✓ Lleihau Ôl troed Carbon
- ✓ Gwella diogelwch gwybodaeth
- ✓ Cynyddu mynediad i'r llwybr archwilio



*Dominic Gale o Cambria
a Lucinda Hyde o WWH
yn cydweithio*

Adeiladau cartrefi newydd



Mae'r argyfwng tai yng Nghymru yn parhau i gymryd cryn dipyn o'n sylw ac, fel sefydliad, rydym yn teimlo'n angerddol ynghylch helpu i ddatrys y mater hwn yng Nghymru. Rydym yn falch bod gan Lywodraeth Cymru weledigaeth glir er mwyn cynyddu cyflenwad tai cymdeithasol a bod ei chyllideb yn ymrwymo symiau sylweddol er mwyn helpu i gyflawni hyn.

Bu'r farchnad adeiladu yn heriol iawn yn 2022. Mae'r amgylchedd lle y gwelir chwyddiant uwch wedi herio ein costau adeiladu. Gwelir oedi sylweddol wrth sicrhau cymeradwyaeth cynllunio ac SAB (Corff Awdurdodi Draenio Cynaliadwy) a cheir ardaloedd yng Nghymru lle nad oes modd datblygu ynddynt ar hyn o bryd o ganlyniad i'r cyfyngiadau oherwydd ffoffadau a weithredir gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Rydym wedi gweld sawl contractwr mawr yn gadael y farchnad yng Nghymru, naill ai o'u gwirfodd neu oherwydd eu bod wedi mynd i'r wal. Mae'r rhai sydd ar ôl yn profi prinder llafur, ac yn ei dro, mae hyn yn codi costau llafur, ynghyd â chodiadau parhaus yng nghost deunyddiau.

Er gwaethaf hyn oll, rydym wedi llwyddo i ddarparu **287 O GARTREFI NEWYDD** yn ystod 2022, a oedd yn cynnwys 273 o gartrefi i'w gosod ac 14 o gartrefi Perchentaeth Cost Isel (LCHO). Yn ogystal, gwerthom y ddau gartref olaf yn ein datblygiad newydd yn Aberystwyth, sy'n golygu bod y saith cartref yn y fan honno bellach yn cael eu meddiannu gan eu perchnogion. Ar hyn o bryd, mae'r gwaith yn mynd rhagddo **I ADEILADU 426 O GARTREFI NEWYDD** ar draws Cymru ac mae gennym dros 1,000 o blotiau pellach yn ein cynlluniau datblygu. Mae'r map gyferbyn yn dangos lle y cwblhawyd cartrefi newydd a lleoliad y rhai sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd.

Byddwn yn adeiladu'r cartrefi newydd hyn yn y ffordd gywir. Mae'r

argyfwng costau byw yn ei gwneud yn bwysicach fyth y bydd y cartrefi y byddwn yn eu hadeiladu yn dilyn dull ffabrig yn gyntaf, sy'n golygu eu bod yn gynnes iawn ac felly, na fydd angen eu gwresogi rhyw lawer. Ni fydd y gwres y byddwn yn ei ddarparu yn y cartrefi hyn yn defnyddio tanwydd ffosil, ac rydym yn parhau i ystyried cyfuniadau PV solar, batris a phympiau gwres ffynhonnell aer er mwyn darparu gwres a dŵr poeth. Yn ogystal, rydym yn dymuno i'n cartrefi fod yn hawdd i ni eu cynnal a'u cadw, ac wedi'u dylunio mewn ffordd wych, sy'n ystyried y ffordd y gall ein timau cynnal a chadw ofalu am y cartrefi hyn am flynyddoedd lawer.

Enghraifft dda yw'r cynllun a gwblhaom yn ystod y flwyddyn sef cartrefi rhent cymdeithasol yn Llys Capel, Llaneurgain, Sir y Fflint. Gwelwyd y technolegau adeiladu tai diweddaraf yn cael eu defnyddio yn y cartrefi hyn, a adeiladwyd i safonau Passivhaus. Mae'r gwaith o adeiladu'r cartrefi hyn yn cynnig profiad gwerthfawr wrth i ni geisio bod yn arloesol yn barhaus yn ein harferion adeiladu a datblygu er mwyn sicrhau cymaint o effeithlonrwydd ag y bo modd ar gyfer ein preswylwyr a'r amgylchedd ehangach. Gweithiom gyda Lywodraeth Cymru, Prifysgol Abertawe a Chyngor Sir y Fflint i rannu'r hyn a ddysgwyd a manteisio ar gyllid.

Fel erioed, ein blaenoriaeth fydd darparu tai rhent cymdeithasol o hyd. Yn ogystal, byddwn yn darparu deiliadaethau eraill lle y mae'n helpu gyda symudedd yn y farchnad tai a byddwn yn gwneud hyn oll gyda'n partneriaid datblygu yng Nghymru, gan gynnig sicrwydd o ran gwaith i'r busnesau bach a chanolig hyn a chan ychwanegu gwerth pellach i Gymru.



1. Ein datblygiad o 45 o gartrefi newydd ar safle hen hufenfa yn Sanclêr, Sir Gaerfyrddin
2. Ein datblygiad o 34 o gartrefi ar dir oddi ar Heol Berwyn yng Nghefn Mawr, Wrecsam
3. Ein datblygiad o 49 o fflatiau ar gyfer pobl hŷn ar safle hen westy Blue Dragon yng Nghaerdydd

Perfformiad ariannol

Dadansoddiad o Incwm Cynhwysfawr Cyfan Gwbl y Gymdeithas	2022 £m	2021 £m	Arian Rhydd y Gymdeithas	2022 £m	2021 £m
Trosiant	77.0	71.7			
Yn llai: Amorteiddio	(3.4)	(3.2)			
Trosiant Net	73.6	68.5			
Costau gweithredol ariannol	(42.8)	(38.4)			
EBITDA	30.8	30.1	EBITDA	30.8	30.1
%ran EBITDA	42%	44%			
Gwariant ar waith trwsio mawr	(4.9)	(5.3)	Disodli cydrannau	(7.1)	(4.4)
Dibrisiant yn llai amorteiddio	(10.3)	(9.4)	Gwariant ar waith trwsio mawr	(4.9)	(5.3)
Gwarged gweithredol (cyn elw ar waredu)	15.6	15.4	Ail-fuddsoddi mewn eiddo	(12.0)	(9.7)
%ran gwarged gweithredol (cyn elw ar waredu)	21%	22%			
Gwarged ar werthu asedau sefydlog	16.9	1.2	Gwariant cyfalaf	(3.3)	(3.0)
Gwarged gweithredol	32.5	16.6			
Cost llog net	(9.8)	(9.6)	Cost llog net	(9.8)	(9.6)
Llog wedi'i gyfalafu	0.9	1.0	Costau pensiwn	(2.5)	(0.9)
Symudiadau cyfrifyddu	(0.9)	(0.1)	Symudiadau cyfalaf gweithio	(0.9)	0.0
Symudiadau pensiwn actwaraidd	11.5	1.2			
Cyfanswm yr Incwm Cynhwysfawr	34.2	9.1	Mewnlif arian rhydd	2.3	6.9

Dadansoddiad o Warged sylfaenol y Gymdeithas	2022 £m	2021 £m	2020 £m	2019 £m
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr	34.2	9.1	11.1	4.0
Symudiadau pensiwn actwaraidd	(11.5)	(1.2)	1.0	3.7
Gwarged ar werthu asedau eiddo	(17.4)	(1.2)	(1.1)	0.6
Gwarged sylfaenol	5.3	6.7	11.0	8.3

Trosiant y gymdeithas


£77.0 miliwn

↑ 7.4%

Gwelwyd trosiant y Gymdeithas yn codi £5.3 miliwn o £71.7 miliwn yn 2021, o ganlyniad i godiadau rhent chwyddiannol blynyddol a gaiff eu rheoleiddio a rhenti gan gartrefi newydd a adeiladwyd. Er gwaethaf yr amodau anffafriol yn y diwydiant

adeiladu, darparom bron i 300 o gartrefi newydd yn 2022. Cyfrannodd hyn at ein cynnydd mewn incwm rhentu, a ddaliwyd yn ôl fel arall gan godiad rhent is na chwyddiant a weithredwyd gan Lywodraeth Cymru.

EBITDA



42%
o'r trosiant
(2021: 44%)

Gwelwyd ein canran EBITDA (yr ydym yn ei alw yn Warged Gweithredol Ariannol) yn gostwng o 44% i 42% yn 2022 o ganlyniad i'r codiad mewn chwyddiant yn 2022, nad oedd y codiad wedi'i gapio yn ein rhenti wedi cyd-fynd ag ef. Roedd hyn yn golygu bod ein costau wedi codi yn gyflymach nag y cododd ein hincwm.


Gwelwyd ein Gwarged Gweithredol cyn ystyried gwerthu asedau sefydlog ac eiddo yn codi £0.2m i £15.6m, ond fel canran o'r trosiant, gostyngodd i 21% o'i gymharu â 22% y llynedd, gan adlewyrchu'r ffaith unwaith eto bod ein costau wedi codi yn gyflymach na'n hincwm. Gwerthom bron i 400 o gartrefi i gymdeithasau tai eraill yn ystod y flwyddyn fel rhan o'r prosiect i sicrhau cydbwysedd o'r newydd o ran ein stoc. Roedd effaith gwerthu'r cartrefi hyn yn unol â phrisiau heddiw o'i gymharu â dileu gwerthoedd llyfr y cartrefi hyn, a gadwyd yn y fantolen yn ôl cost wedi'i ddibrisio a gododd sawl degawd yn ôl, yn golygu ein bod wedi cydnabod gwarged cyfrifyddu sylweddol ar y gwerthiannau hyn. Roedd hyn wedi codi ein Gwarged Gweithredol a adroddwyd i £32.5m, o'i gymharu ag £16.6m yn 2021.

Ein cost llog net oedd £9.8 miliwn o'i gymharu â £9.6 miliwn. Tynnom

ran olaf ein gosodiad preifat yn ystod y flwyddyn ac rydym yn parhau i fod yn hylifol iawn yn ystod y cyfnod economaidd anodd hwn, gan gadw dros £78.8m ar ffurf arian a £70m pellach ar ffurf cyfleuster credyd cylchol sydd ar gael i ni. Ynghyd â'r gosodiad preifat terfynol a dynnwyd i lawr, a oedd wedi ychwanegu cost llog, gosodom ein benthyciad cyfradd newidiol tynnu i lawr terfynol yn gynnar yn 2022, ac roedd hyn wedi codi cost y llog hefyd, er nad oedd wedi ei godi yn agos gymaint ag y byddai wedi codi pe baem wedi gadael y benthyciad ar gyfradd newidiol, o ystyried y codiad sylweddol iawn yng nghyfradd sylfaenol Banc Lloegr a welwyd yn 2022.

Ein cyfradd llog gyfartalog oedd 3.38% (2021: 3.25%) ac roedd ein dyled yn cynnwys 99% (2021: 96%) a oedd yn dwyn llog ar gyfraddau sefydlog, 0% (2021: 3%) gyda chyfraddau llog newidiol ac 1% (2021: 1%) gyda chyfraddau a oedd yn gysylltiedig â mynegai. Llwyddom i fodloni ein sicrwydd llog a'n cyfamodau gerio ar gyfer ein benthyciadau banc yn ystod 2022 a 2021 yn gyffyrddus.

Llog cyfartalog

3.38 
(2021: 3.25%)

Llif arian rhydd y Gymdeithas

Ein prif fetrig ariannol yw'r arian parod rhydd a gynhyrchir gan y Gymdeithas. Yn 2022, roedd mewnllif arian parod rhydd wedi gostwng i £2.3 miliwn o'r £6.9 miliwn a gynhyrchwyd y llynedd.

Datgelir hyn yn y datganiad llif arian parod fel sy'n ofynnol dan benderfyniad cyfrifyddu Llywodraeth Cymru. Mae'r gostyngiad hwn o ganlyniad i'r EBDITA is, a achoswyd gan godiadau cost chwyddiantol uwch na'r codiadau incwm wedi'u capio, ynghyd â chynnydd o ran yr arian a ail-fuddsoddwyd yn ein portffolio eiddo, a gwariwyd £12.0 miliwn yn 2022 o'i gymharu â £9.7 miliwn yn 2021. Roedd hyn yn cynnwys disodli cydrannau a gostiodd £7.1 miliwn (2021: £4.4 miliwn) ynghyd â gwaith trwsio mawr a oedd wedi costio £4.9 miliwn (2021: £5.3 miliwn). Roedd y flwyddyn yn teimlo fel un fwy arferol o ran gweithgarwch ail-fuddsoddi mewn eiddo ar ôl dwy flynedd o bandemig, er bod rhywfaint o'r cynnydd o ran y gwariant o ganlyniad i gostau llafur a deunyddiau uwch a yrrwyd gan chwyddiant. Cynyddom y gwariant cyfalaf hefyd, a'i godi o £3.0 miliwn yn 2021 i £3.3 miliwn yn 2022.

Gwariant datblygu



£41 miliwn
(2021: £38 miliwn)

Yn ystod 2022, gwariwyd £41 miliwn (2021: £38 miliwn) ar ddatblygu cartrefi newydd. Mae'r amodau economaidd anffafriol wedi arwain at godiad o ran y costau adeiladu, gyda gweithgarwch tebyg yn costio £3 miliwn yn fwy yn 2022 nag yr oedd yn 2021. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gennym werth £776 miliwn (2021: £746 miliwn) ar ffurf asedau sefydlog a benthyciadau o £321.5 miliwn (2021: £302.7 miliwn).

Strwythur y Grŵp

Ar ôl gwerthu Mentrau Castell, mae'r Grŵp yn cynnwys y rhiant-Gymdeithas a thri is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr:

- **Cambria**
(Cambria Maintenance Services Limited),
- **Castell Homes**
(Castell Homes Limited),
- **Enfys**
(Enfys Developments Limited).

Mae'r holl is-gwmnïau hyn yn bodoli i ddarparu sianelau cost-effeithlon er mwyn datblygu cartrefi newydd a darparu gwasanaethau ar gyfer preswylwyr y Gymdeithas.

Nid yw'r is-gwmnïau hyn yn cynrychioli arallgyfeirio i ffwrdd o fentrau traddodiadol cymdeithas dai.

Mae is-gwmni pellach, Cwmni Rheoli Plas Morolwg, yn segur ar hyn o bryd.

Datblygiadau Enfys



Cychwynnodd Enfys ar ei gwaith yn 2013 ac mae'n rheoli ein rhaglen datblygu cartrefi newydd, gan gynnig ffordd gost-effeithlon o ddarparu. Mae cael ein cwmni datblygu ein hunain yn sicrhau ein bod yn adeiladu'r cartrefi cywir yn unol â'r manylebau cywir, gan ddefnyddio'r contractwyr a'r deunyddiau cywir. Disgwyliwn i Enfys ddarparu dros 1,500 o gartrefi newydd dros y bum mlynedd nesaf.

Yn ystod y flwyddyn, llwyddodd Enfys i sicrhau trosiant o £29.1m (2021 - £29.1m), gan wneud elw o £0.3m (2021 - £0.3m).



£29.1 miliwn

Trosiant Enfys
(2021: £29.1 miliwn)

Cartrefi Castell



Mae Cartrefi Castell yn rheoli ein gwaith o ddatblygu cartrefi i'w gwerthu, a chwblhawyd tri chartref i'w gwerthu hyd yn hyn. Gwerthwyd dau gartref yn ystod y flwyddyn tan 31 Rhagfyr 2022 a bydd nifer y cartrefi i'w gwerthu yn cynyddu yn y dyfodol os bydd cyfleoedd addas yn codi.

Yn ystod y flwyddyn, sicrhodd Cartrefi Castell drosiant o £0.4m (2021 - £1.4m) gan wneud elw o £0.06m (2021 - elw o £0.01m).



£0.4 miliwn

Trosiant Cartrefi Castell
(2021: £1.4 miliwn)

Gwasanaethau Cynnal a Chadw Cambria



Sefydlwyd Cambria yn 2011 ac mae'n darparu gwasanaethau cynnal a chadw cost-effeithiol yn ein holl eiddo ar draws Cymru. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys gwaith cynnal a chadw adweithiol, gwasanaethu nwy, profion trydanol a disodli ceginau, ystafelloedd ymolchi a boeleri.

Mae dros 99% o'r holl wasanaethau a ddarparir ar gyfer preswylwyr y Gymdeithas. Mae cadw mwyafrif ein gwaith cynnal a chadw ar gyfer ein cwmni mewnol yn cynnig datrysiad cost-effeithiol trwy sicrhau bod gwaith

yn cael ei gwblhau i'r safon cywir, gan gadw rheolaeth dros gostau deunyddiau cysylltiedig ac arbed elw contractwyr a TAW na ellir ei adennill ar gostau llafur.

Yn ystod y flwyddyn, llwyddodd Cambria i sicrhau trosiant o £15.2m (2021 - £13.4m), gan wneud elw o £1.7m (2021 – elw o £1.6m). Mae swm y trosiant wedi codi ers y flwyddyn flaenorol oherwydd lleihawyd nifer o weithgareddau masnachol yn ystod y pandemig, a gwelwyd llai o effaith yn 2022.



£15.2 miliwn

Trosiant Cambria
(2021: £13.4 miliwn)

Mentrau Castell

Yn ystod y flwyddyn, penderfynodd y Bwrdd werthu Mentrau Castell dan drefniant Pryniant gan y Cyfarwyddwr Rheoli presennol, a chwblhawyd y trafodiad ar 31 Ionawr 2023. Cyn ei werthu, trosglwyddwyd isadrannau Arlwyyo Castell a Glanhau Castell, sy'n darparu gwasanaethau glanhau a phrydau i breswylwyr ein pum cynllun Gofal Ychwanegol yng ngogledd, gorllewin a chanolbarth Cymru, i Dai Wales & West. Roedd hyn wedi gadael yr is-adran Gofal a Chymorth o fewn Mentrau Castell fel rhan o'r gwerthiant, felly nid yw'r Grŵp yn ddarparwr gwasanaethau gofal cofrestredig mwyach. Nodir manylion y trafodiad yn Nodyn 9 y cyfrifon.

Yn ystod 2022, sef y flwyddyn olaf ym mherchnogaeth y Grŵp, llwyddodd Mentrau Castell i sicrhau trosiant o £5.4m (2021 - £4.4m), gan wneud colled fach o £0.02m (2021 – elw o £0.02m).



£5.4 miliwn

Trosiant Mentrau Castell
(2021: £4.4 miliwn)

Gwerth am arian

Mae gennym ddull gweithredu ar gyfer Gwerth am Arian (VFM) sy'n canolbwyntio ar effeithlonrwydd, bodlonrwydd preswylwyr a gwerth cymdeithasol. Y dull gweithredu o ran effeithlonrwydd yw gwella effeithlonrwydd gweithredol ac ariannol, canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth, caffael, rheoli trysorlys ac effeithlonrwydd treth. Rhoddir pwyslais ar sicrhau gwerth, yn hytrach nag arbed arian yn unig.

Wrth geisio effeithlonrwydd wrth ddarparu gwasanaeth, nid ydym yn gosod targedau nac yn ceisio gwneud gostyngiadau mympwyol megis 2% neu rywbeth tebyg. Yn hytrach, rydym yn canolbwyntio o ar wneud yr hyn sy'n bwysig i gwsmeriaid yn unig, trwy ddeall galwadau cyff redin, gan gynllunio gwasanaethau i fodloni'r galwadau hynny a gwaredu gwastraff yn y systemau hynny. Asesir hyn gan ddefnyddio mesurau arweiniol yn y gwaith ym mhob system. Er enghraifft, mae system trwsio fy nghartref yn canolbwyntio o ar drwsio'r broblem yn ystod yr ymweliad cyntaf ac apwynti adau. Os bydd modd cyflawni tasg y tro cyntaf, mae'n lleihau gwastraff gan na fydd yn rhaid i'r gweithiwr fynd i'r eiddo eilwaith. Yn yr un modd, os gwneir apwynti ad ac os y'i cedwir, ni fydd yn rhaid i'r gweithiwr deithio i'r un eiddo ddwy waith. Mae camau sy'n cael eu cymryd yn y gwaith i waredu rhwystrau yn y systemau yn helpu i leihau gwastraff. Bydd hyn yn ei dro yn bwydo trwyddo i gostau is a gwella effeithlonrwydd.

Yn ein system rhenti, ni fyddwn yn llethu preswylwyr gyda llythyrau cas ac ni fyddwn yn cyhoeddi

nifer fawr o rybuddion yn ceisio meddiant. Yn hytrach, byddwn yn gweithio gyda'n preswylwyr i'w helpu i gyllidebu, gan drefnu cynllun talu er mwyn iddynt dalu eu rhent. Rydym yn monitro'r rhain bob dydd a byddwn yn cyrraedd preswylwyr yn gyflym pan na fydd rhywbeth yr oeddem yn disgwyl iddo ddigwydd yn digwydd. Mae hyn yn caniatáu i ni gynnig cymorth i'n preswylwyr a'u cael yn ôl ar y trywydd iawn gyda'u taliadau. Mae mwyafrif helaeth ein preswylwyr yn ymgysylltu â'r broses hon ac mae hyn yn golygu nad ydym yn troi allan fawr iawn o bobl am ôl-ddyledion rhent (dim ond 5 yn 2022), mae lefel yr ôl-ddyledion rhent yn parhau i ostwng, a dim ond £6,000 oedd swm ein dyledion drwg a godwyd yn 2022.

phan fydd yn digwydd dro ar ôl tro, rydym wedi ceisio mewnnoli, a'r brif esiampl o hyn yw Cambria.



£1,743,000
Arbedion yn ystod 2022
(2021: £1,546,000)


Mae prynu'n iawn wedi canolbwyntio ar werth hirdymor y deunyddiau a brynir, gan sicrhau y prynir y deunyddiau cywir, sy'n rhai safonol ar draws ein stoc ac sy'n lleihau cyfanswm y gwaith cynnal a chadw y bydd angen ei wneud yn y dyfodol

gymaint ag y bo modd. Caiff staff eu hyfforddi yn rheolaidd i wneud penderfyniadau prynu da ar sail yr angen i wneud y gwariant a sicrhau gwerth da mewn perthynas â dewisiadau amgen.

Mae'r dull gweithredu cyllid

tuag at VFM yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd treth a rheoli trysorlys. Pan fydd modd i TAW anadferadwy gael ei adfer, gweithredir strwythur i leddfu hyn, ac mae Enfys yn esiampl da o hyn.

Ôl-ddyledion rhent



Mae ein dull gweithredu caffael wedi canolbwyntio ar fewnoli yn gyntaf, ar "brynu'n iawn" yn ail ac ar wneud penderfyniadau caffael da yn drydydd. Mae mewnnoli yn gwaredu TAW anadferadwy ar lafur ac elw a dalwyd yn flaenorol i gontractwyr trydydd parti. Pan fo modd rhagweld y gwaith a



**Enfys
Developments**
£3,108,000
Arbedion TAW
ers corffori

Caiff effeithlonrwydd trysorlys ei sicrhau trwy fanteisio ar gyfleusterau bond hirdymor er mwyn cynnig cyfraddau am gyfnod sefydlog hir am gost cystadleuol, wedi'i gydbwyso â chyfleusterau cylchol tymor byr sy'n sicrhau na fydd costau cario arian dianghenraid yn codi.

3.38%
Cost cyfalaf cyfartalog
wedi'i bwysoli
(2021: 3.25%)

Mae gwerth cymdeithasol wedi'i ymwreiddio yn yr hyn a wnawn a chaiff ei adlewyrchu yn y datganiad cenhadaeth o wneud gwahaniaeth i fywydau, cartrefi a chymunedau pobl. Mae'r dull gweithredu tuag at VFM yn ymwneud â sicrhau gwerth cymdeithasol hefyd, a sicrhau ei fod yr un mor bwysig ag effeithlonrwydd ariannol. Ni wneir unrhyw benderfyniad heb gyfeirio at y datganiad cenhadaeth. Mae'r adran ynghylch gwerth cymdeithasol yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn yn amlgu rhai o'r meysydd niferus lle'r ydym yn ychwanegu gwerth cymdeithasol.

Rydym yn adolygu'r diben a'r hyn sy'n bwysig yn gyson trwy wrando ar alwadau preswylwyr ac yn ychwanegol i hyn, cynhelir arolygon bodlonrwydd preswylwyr rheolaidd ar draws y systemau.

Mae deall bod preswylwyr yn fodlon yn brawf da er mwyn sicrhau bod effeithlonrwydd yn cael ei gyflawni heb gael effaith niweidiol ar wasanaethau. Mae'n anodd mesur bodlonrwydd preswylwyr ar sail gyfunol o ganlyniad i natur unigol iawn pryderon a sefyllfa pob preswlydd. Rydym yn canolbwyntio ar roi sylw i anghenion preswylwyr a sicrhau eu bodlonrwydd yn ystod pob pwynt cyswllt, gan ddysgu gwersi o bob ymgyssylltiad y byddwn yn manteisio arnynt er budd ein holl breswylwyr.

Yn ogystal, rydym yn buddsoddi mewn rhoi sylw i'r mathau

o alwadau y mae modd eu rhagweld a'r rhai sy'n codi yn aml, fel ein bod yn barod i wneud yr hyn sy'n wirioneddol bwysig i'n preswylwyr. Mae ein Bwrdd yn monitro bodlonrwydd preswylwyr mewn nifer o feysydd allweddol ar draws ein darpariaeth, gan sicrhau cydbwysedd rhwng sgoriau gwasanaethau penodol wrth y pwynt darparu ac arolygon bodlonrwydd cyffredinol o bryd i'w gilydd.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar helpu pob preswlydd fel unigolyn gyda'u sefyllfa unigryw eu hunain, yn hytrach na cheisio ysgogi gwelliant o ran sgôr rhifol.

Gan ystyried popeth, pa mor fodlon neu anfodlon yw eich preswylwyr gyda'r canlynol:

Meincnod LIC	Canlyniad 2022	
82%	85%	Bodlonrwydd cyffredinol
81%	86%	Ansawdd y cartref
86%	90%	Diogelwch y cartref
82%	87%	Gwerth am arian y rhent
67%	76%	Gwerth am arian y tâl gwasanaeth
75%	83%	Gwaith trwsio a chynnal a chadw yn gyffredinol
69%	75%	Yn gwrando ar safbwyntiau ac yn gweithredu yn eu cylch
62%	67%	Yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau
64%	70%	Cael dweud eich dweud am y ffordd y rheolir y gwasanaeth
79%	84%	Yn ymddiried yn Nhai Wales & West
82%	83%	Y gymdogaeth fel lle i fyw
66%	67%	Delio ag YG

Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu

Gyda llywodraethu da, rydym yn rhedeg y busnes mewn ffordd sy'n ceisio cael effaith gadarnhaol gynyddol ar yr amgylchedd ac er mwyn sicrhau gwerth cymdeithasol.

Amgylcheddol

Ni ellir gorbwysleisio difrifoldeb yr argyfwng hinsawdd, ac mae'n gyfrifoldeb moesol ar bawb i wneud hyn. Credwn mai nawr yw'r amser i ni weithredu mwy ynghylch yr argyfwng hinsawdd. Mae gennym rai o'r tai cymdeithasol cynhesaf yng Nghymru, swyddfeydd carbon isel, achrediad y Ddraig Werdd, gwastraff isel a dull gweithredu sy'n ymwybodol o faterion amgylcheddol wrth brynu. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cychwyn ar y gwaith ar Brosiect Corfforaethol newydd sydd wedi ymrwymo i'n strategaeth amgylcheddol a fydd yn amlinellu ein cynlluniau ar gyfer cynaladwyedd yn y dyfodol, ac a fydd yn sicrhau bod ein heffaith ar yr amgylchedd yn rhan annatod o'n gweithgarwch wrth wneud penderfyniadau busnes strategol yn y dyfodol. Fel rhan o'r gwaith cynllunio strategol hwn, rydym wedi ymgysylltu â'r Ymddiriedolaeth Carbon i gynnal darn mawr o waith er mwyn ein cynorthwyo i nodi ein sefyllfa bresennol o ran ein hól troed carbon ar draws ein swyddfeydd, ein fflyd o gerbydau a'n heiddo preswyl, ynghyd â meysydd i'w gwella ar draws ein busnes.

Adeiladu yn y ffordd iawn

Mae ein rhaglen adeiladu bresennol yn cynnwys cartrefi sy'n cael eu hadeiladu heb yr angen am danwydd ffosil yn unig.

Un enghraifft o'r fath yw ein datblygiad newydd o gartrefi-eco yn Llaneurgain, Sir y Fflint. Adeiladwyd chwe eiddo newydd ar safle hen eglwys ac mae'r cartrefi yn cynnwys nodweddion arloesol er mwyn arbed ynni, gan gynnwys fframiau pren, ffenestri

gwydr triphlyg a draenau cynaliadwy. Ar gyfartaledd, mae'r cartrefi hyn yn haneru biliau ynni o leiaf.

Lle i Natur yn ein Cymunedau

Rydym wedi parhau ein gwaith trwy gydol y flwyddyn i annog natur yn ein cymunedau ac yng ngerddi preswylwyr. Rydym wedi gweithio gyda Cadwch Gymru'n Daclus yng Nghlos Pentland, Caerdydd, er mwyn gosod pecyn o welyau uwch, blodau gwyllt,



coed ffrwythau a blychau adar, ystumod a draenogod er mwyn annog bywyd gwylt i ddod i'r gerddi cymunol fel rhan o raglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Cefnogom y Sgowntiaid yn Sanclêr i ddatblygu eu gardd gymunedol, gan gynnig lle i dyfu ffrwythau a llysiau. Defnyddir y lle gan gartref gofal Fronhaul hefyd. Cafodd Cwrt Oak Penarth a Chwrt Hanover Y Barri blanhigion, blodau gwylt, planhigion llwyn, blychau ystumod a gwestai pryfed amrywiol gan Bartneriaeth Natur Leol Y Fro. Y nod yw cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

Dull gweithredu sy'n ystyriol o'r amgylchedd wrth brynu

Yn ystod y flwyddyn, datblygom broses gymhwys ar-lein newydd ar gyfer cyflenwyr, sy'n cynnwys adran ynghylch diogelu'r amgylchedd, sy'n amlygu egwyddorion ein Polisi Amgylcheddol ac sy'n mynnu bod yr holl fusnesau yr ydym yn gweithio gyda nhw yn gweithredu'r egwyddorion o fewn eu busnes. Yn ogystal, rydym yn ceisio gwybodaeth a thystiolaeth ynghylch a yw busnesau yn gweithredu yn unol â System Rheoli Amgylcheddol.

Gwella gallu ein cartrefi presennol i ddefnyddio ynni mewn ffordd effeithlon

Yr effaith fwyaf y gallwn ei chael yw gwella gallu ein cartrefi i ddefnyddio ynni mewn ffordd effeithlon. Nid yw'r ffordd orau



o wneud hyn yn glir eto, felly rydym wedi bod yn arbrofi gyda thechnolegau newydd, a gyda rhai mwy profedig, i ddysgu pa gynhyrchion sy'n gweithio orau yn ein cartrefi a'r ffordd orau o'u gosod. Mae'r mesurau hyn wedi cynnwys cyfuniad o wneud gwelliannau i ffabrig yr adeilad er mwyn lleihau'r galw i wresogi'r lle mewn cartrefi, disodli systemau gwresogi, a symud i ffwrdd o nwy a gosod mwy o ddatrysiadau adnewyddadwy ar gyfer cynhyrchu a storio trydan.

Gyda'i gilydd, bydd y cyfuniad priodol o ddatrysiadau yn lleihau biliau ynni ar gyfer ein preswylwyr ac yn lleihau cyfanswm y carbon a ddefnyddir er mwyn pweru cartrefi. Rydym wedi nodi rhai o'r prosiectau yr ydym wedi gweithio arnynt yn ystod 2022 dros y tudalennau nesaf, ac roeddem wrth ein bodd bod y cynllun yng Nglannant, Ceredigion, wedi ennill y wobr am Gynladwyedd ym maes Tai yng Ngwobrau Tai Cymru 2022.



Enillodd ein cynllun i wneud gwaith ôl-osod mewn chwe chartref yng Nglannant yng Ngheredigion y wobr am Gynladwyedd yng Ngwobrau Tai Cymru 2022

Sicrhau bod cartrefi yn gynnes ac yn fforddiadwy i fyw ynddynt

Mae nifer o breswylwyr sy'n symud i'n cartrefi newydd yn dweud eu bod yn hoffi'r teimlad o ddiogelwch y mae eu cartref newydd yn ei roi iddynt.

Mae adeiladu cartrefi yn y man cywir ac yn y ffordd gywir yn ffactor pwysig y byddwn yn ei ystyried. Mae cael cartref sy'n hawdd i fyw ynddo yn brif ffactor arall pan fyddwn yn adeiladu.

Rydym hefyd yn ystyried ffyrdd y gallwn gynnwys technolegau carbon isel sy'n arbed ynni yn ein cartrefi hŷn. Ddwy flynedd yn ôl, lansiodd Llywodraeth Cymru Brosiect Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, gan weithio gyda landlordiaid cymdeithasol ac awdurdodau lleol i fuddsoddi

mewn ffyrdd o leihau cyfanswm y carbon y bydd cartrefi yng Nghymru yn ei gyfrannu i'r hinsawdd a hefyd, sicrhau eu bod yn fwy fforddiadwy i'w gwresogi, gan fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Fel rhan o hyn, rydym wedi gweithio ar nifer o brosiectau ymchwil er mwyn gosod technolegau newydd sy'n arbed ynni yn rhai o'n cartrefi hŷn megis pypiau gwres ffynhonnell aer, systemau gwres/awyru mecanyddol, paneli PV (solar) a batris. Cyflawnwyd rhai o'r prosiectau hyn gyda phartneriaid, sef Ysgol Bensaerniaeth Cymru a Grŵp Sero.

Mae modd gweld enghraifft o'r gwaith hwn yng Nglannant,

Llechryd yng Ngheredigion, lle y buom yn gweithio gydag Ysgol Bensaerniaeth Cymru er mwyn cynnal treial ar chwe chartref. Gosodwyd y canlynol yn y cartrefi:

- ffenestri a drysau newydd er mwyn gwella inswleiddio.
- mwy o inswleiddio yn y llofft.
- inswleiddio waliau allanol (EWI), a gynlluniwyd i gadw gwres yn y cartref a gwella'r ymddangosiad allanol.
- paneli solar (PV) ar y to.
- batris er mwyn storio unrhyw drydan a gynhyrchir yn ystod y dydd, y bydd modd ei ddefnyddio gyda'r hwyr.
- unedau awyru yn y llofft i leihau cyddwysiad trwy ddisodli aer llaith gydag aer ffres wedi'i hidlo.



Cyn...



... ac ar ôl y gwaith ôl-osod



Bellach, mae gwaith monitro yn cael ei wneud i ddarganfod pa wahaniaeth y mae'r gwelliannau yn ei gael. Trwy gynhyrchu a storio eu trydan eu hunain, mae'r systemau newydd yn arbed tua 3000 kWh o drydan y flwyddyn i'r preswylwyr ar gyfartaledd, gan leihau swm yr ynni y bydd angen iddynt ei brynu gan y Grid Cenedlaethol gymaint â dros 60 y cant. Mae'r allyriadau carbon yn llawer is hefyd.

Mae preswylwyr wedi sôn bod y "deunydd inswleiddio ar y waliau allanol, y ffenestri a'r drysau newydd wedi bod yn wych. Heb os, mae wedi gwneud gwahaniaeth wrth gadw'r tŷ yn gynnes."

"Rydym wedi gweld arbedion arwyddocaol ar ein biliau trydan

hefyd gyda'r paneli PV a'r batri. Un fantais arall yw pan fydd y cyflenwad trydan yn methu, bydd y batri yn cynnig cyflenwad i ni. Mae'n ardderchog!"

Yn Rhiw Cae Mawr, Pen-y-bont ar Ogwr, rydym wedi gweithio mewn partneriaeth gydag Ysgol Bensaernïaeth Cymru unwaith eto, gan osod nifer o welliannau carbon isel mewn tŷ gwag, gan gynnwys EWI, ffenestri a drysau, paneli PV a batri system awyru, er mwyn dangos yr hyn y gellir ei wneud i wella cartrefi yn y dyfodol.

Fel rhan o'r prosiect Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, rydym wedi gosod technolegau newydd yn yr ardaloedd canlynol hefyd:

- paneli solar (PV) a batris mewn chwech o'n cynlluniau.

- ym Mharc Meiros, Drefach Felindre, rydym wedi gosod systemau gwresogi hybrid er mwyn cyfuno eu boeleri olew presennol gyda phympiau gwres ffynhonnell aer, ynghyd â phaneli PV a batris.

- inswleiddio waliau allanol, ffenestri a drysau newydd ym Mro Castell, Pencader.

- yng Nghwrt Odet yng Nghaerdydd, rydym wedi gosod system batri a phanel to PV solar er mwyn darganfod sut y bydd y dechnoleg yn gweithio i breswylwyr sy'n byw mewn fflatiau.

- Yng Nghreigle, Ceinewydd, gosodwyd treial o fatris storio gwres a phympiau gwres ffynhonnell aer mewn saith cartref.



Cymdeithasol

Mae gwerth cymdeithasol yn rhan annatod o'r hyn a wnawn ac mae wedi cael ei adlewyrchu yn y datganiad cenhadaeth o wneud gwahaniaeth i fywydau, cartrefi a chymunedau pobl.

Rydym yn darparu swm sylweddol o fuddion cymunedol gan ddefnyddio cronfa Gwneud Gwahaniaeth, lle'r ydym yn cydweithio gyda chyflenwyr a chontractwyr i roi rhywbeth yn ôl i gymunedau lleol trwy gefnogi grwpiau cymunedol a chwaraeon.

Darparom gyllid i Gymdeithas Chwarae Dinas yn Sir Benfro er mwyn iddynt brynu weiren wib ar gyfer y parc chwarae cymunedol. Mae hyn wedi helpu i wella'r lle y tu allan, gan gynnig mwy o gyfleoedd chwarae i'r plant.

Cynhaliom ddau Ddiwrnod Rhoi Rhywbeth yn Ôl ym mis Mawrth ar gyfer Gardd Gymunedol Clos Cradoc, lle y bu aelodau o staff WWH, Cadwch Gymru'n Daclus, y cyngor lleol a'r preswylwyr leol yn creu gardd o'r newydd. Roedd y preswylwyr wedi clirio'r safle â llaw, a oedd wedi tyfu'n wyllt, ac a oedd yn darged i'r rhai sy'n tipio sbwriel yn anghyfreithlon. Yn ogystal, talom i'r safle gael ei balu â pheiriant rhwng y gwaith clirio â llaw ac adeiladu.

Aethom ati i adfer y pwll yng Nghwrt Oak Penarth, gan osod patio newydd o gwmpas y pwll. Yna, cynhaliom ddiwrnod Rhoi Rhywbeth yn Ôl er mwyn plannu



Bu plant yn ein cymunedau ar draws Gorllewin Cymru yn mwynhau haf llawn hwyl, diolch i brosiect Bocs chwarae newydd.



clawdd newydd ar gyfer y cynllun a fydd yn cynnig mwy o gysgod ac a fydd yn denu bywyd gwylt.

Cynhaliom brosiect trwy gydol yr haf o'r enw Blwch Chwarae yr Haf, lle'r ymwelom â naw o'n hystadau tai ar draws Gorllewin Cymru, gan annog teuluoedd i dreulio amser allan yn yr awyr agored trwy gyfrwng chwarae creadigol a dychmygus. Buont yn llwyddiannus, ac mae saith cymuned wedi cadw'r blychau chwarae er mwyn parhau i gynnal eu sesiynau chwarae eu hunain.

Yng Nghae'r Odyn, Bow Street, gosodom sied bren a siglen fasedged at ddefnydd y gymuned er mwyn annog plant ac oedolion i dreulio mwy o amser allan yn yr awyr agored. Mae'r preswylwyr yn

defnyddio'r sied i storio deunydd cymunol a ddefnyddir trwy gydol y gwyliau ysgol ac ar achlysuron arbennig yn ystod y flwyddyn.

Rydym yn parhau i fuddsoddi cymaint o'n gwariant yng Nghymru ag y gallwn, ac am bob £ y byddwn yn ei gwario, ail-fuddsoddir £1.69 ar gyfartaledd yn economi Cymru, gan greu cyflogaeth ac ychwanegu mwy fyth ar ffurf gwerth cymdeithasol.

Rydym wedi cynnwys dwy astudiaeth achos sy'n dangos rhywfaint o'r cymorth yr ydym yn ei ddarparu i'n preswylwyr a dangosir nifer o enghreifftiau eraill yn ein Hadroddiad Effaith Gwneud Gwahaniaeth, sydd ar gael ar ein gwefan.

Help 24 awr i breswylwyr mewn angen

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliad i ddarparu cymorth ac arweiniad arbenigol bob awr o'r dydd a'r nos i'n holl breswylwyr ble bynnag a phryd bynnag y bydd ei angen arnynt.

Mae'r Gwasanaeth Cymorth a Lles i Denantiaid, a gaiff ei redeg gan Life & Progress, yn wasanaeth cymorth penodedig ar-lein a dros y ffôn, sy'n gyfrinachol ac sydd ar gael yn rhad ac am ddim unrhyw bryd o'r dydd neu'r nos.

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys mynediad i gymorth yn y fan a'r lle, arbenigwyr mewn materion cyfreithiol, ariannol a chyffredinol, porth ar-lein a chyfleuster sgwrsio byw ar gyfer y rhai nad ydynt yn teimlo'n gyffyrddus i wneud galwad ffôn efallai.



**Yr help cywir
ar yr adeg gywir**

Mae'r gwasanaeth ar gael trwy gydol y dydd a'r nos, 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn, dros y ffôn ac ar-lein.

Ble bynnag neu pryd bynnag, unrhyw bryd, unrhyw ddiwrnod, mae cymorth ar gael trwy wneud galwad ffôn. Gall preswylwyr gael cymorth ar-lein hyd yn oed, ac ni chodir tâl ar ein preswylwyr i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn. Mae rhai o'r materion y mae'r cymorth yn rhoi sylw iddynt yn

cynnwys cymorth emosiynol, arweiniad ariannol, arweiniad cyfreithiol, budd-daliadau'r wladwriaeth, dileu swyddi, gwybodaeth am ofal plant/gofal ar gyfer dibynyddion, cymorth costau byw, profedigaeth, gofid ac iselder ac arweiniad ynghylch cynilion.

Pantrioedd yn helpu gyda thlodi bwyd

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae ein preswylwyr yn helpu i wneud gwahaniaeth i deuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd cael deupen llinyn ynghyd yn eu hardal trwy wirfoddoli ym Mhantri Cymunedol Bracla.

Mae'r Pantri yn un o rwydwaith o bantrioedd bwyd sy'n cael eu rhedeg gan Baobab Bach ar draws sir Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n helpu pobl sy'n wynebu tlodi bwyd.

Mae Nes Brown yn breswlydd ac yn un o'r gwirfoddolwyr sy'n helpu i ddsbarthu bagiau o fwyd ffres a nwyddau cwpwrdd sylfaenol i aelodau'r Pantri sydd mewn angen. Gall pobl ymuno

â'r Pantri a thalu £5 am gwryn o fwyd, sy'n gallu helpu i baratoi sawl pryd trwy gydol yr wythnos.

Dywedodd Nes: "Byddaf yn teimlo ar ben fy nigon pan fyddaf yn gwirfoddoli yn y Pantri. Rydw i'n gwneud rhywbeth da ar gyfer fy nghymuned."

Er mwyn eu galluogi i gyrraedd mwy o bobl a ddarparu ystod ehangach o fwydydd ffres ac wedi'u hoeri, roedd Baobab Bach yn dymuno prynu oergelloedd arddangos. Bu modd i ni helpu trwy dalu am ddwy oergell ar gyfer pantri sefydledig ym Maesteg ac un newydd yn Y Barri.



Llywodraethu

Bwrdd Rheoli

Rheolir y Grŵp gan Fwrdd o hyd at **15 o aelodau Anweithredol** at ei gilydd:



Mae'r holl aelodau Bwrdd yn aelodau **Anweithredol** ac mae ganddynt un bleidlais yr un.

Gall aelodaeth y Bwrdd gynnwys hyd at **bedwar preswlydd**.

Mae cyfarwyddwyr gweithredol yn mynychu cyfarfodydd er mwyn cyflwyno adroddiadau, ond nid oes ganddynt hawliau pleidleisio.

Mae'r Gymdeithas wedi'i chofrestru:

(i) fel cymdeithas elusennol dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 a'i Rhif Cofrestru yw 21114R; ac

(ii) fel landlord cymdeithasol cofrestredig gyda Llywodraeth Cymru a'i Rhif Cofrestru yw L032.



Mae Aelodau Bwrdd yn cydweithio i dywys y Grŵp trwy'r broses o gyflawni'r nodau ac amcanion datganedig. Mae hyn yn cynnwys goruchwyllo'r sefyllfa ariannol, cytuno ar bolisiau, monitro perfformiad, gwneud penderfyniadau strategol a sicrhau y cynhelir yr holl faterion mewn ffordd gywir. Mae'r Bwrdd yn goruchwyllo byrddau ymgymeriadau is-gwmni er mwyn ystyried cyfeiriad strategol y Grŵp ac er mwyn sicrhau y cyflawnir materion y Grŵp mewn ffordd gywir.



Mae'r Bwrdd yn arwain proses hunanwerthuso gadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, ac sy'n cael ei chadarnhau gan staff, preswylwyr a phartneriaid. Mae hyn yn rhan o'r gofynion lle y caiff y Gymdeithas ei rheoleiddio gan Lywodraeth Cymru, sy'n cyhoeddi set o safonau rheoliadol a chanllawiau er mwyn nodi ei disgwyliadau o'r sector gyfan yn glir. Mae'r broses hunanwerthuso a fabwysiadwyd yn rhan annatod o'n dull gweithredu tuag at gynllunio busnes a gwasanaeth. Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu Cod Llywodraethu CCC ac mae'n defnyddio'r egwyddorion er mwyn tywys ei waith.



Mae'r Bwrdd yn adolygu'r cynnydd yn erbyn blaenoriaethau corff oraethol bob chwarter ar ôl i ddiweddariadau am y Cynllun Corff oraethol ac am Sicrwydd a Pherfformiad gael eu cyflwyno, sy'n cofleidio cyfleoedd a sialensiau newydd hefyd. Defnyddir cyfres o fesurau tueddiadau gwasanaeth gan y Bwrdd er mwyn deall eff eithiolrwydd gweithredol y busnes ac ansawdd y gwasanaeth i breswylwyr. Rhoddir pwyslais ar fesur yr hyn sydd bwysicaf i breswylwyr o ran canlyniadau, ynghyd ag arwyddion ynghylch math ac amllder galwadau gan breswylwyr, fel y gall y Bwrdd a'r staff weld proffi l ceisiadau preswylwyr sy'n newid yn hawdd.

Rhoddir tâl i holl Aelodau Bwrdd a Phwyllgor Anweithredol ar draws Grŵp WWH. Wrth wneud y penderfyniad hwn, ystyriodd y Bwrdd safbwynti au preswylwyr a rhanddeiliaid, yn ogystal â gofynion y busnes yn y dyfodol, a oedd yn cynnwys diogelu gallu y Gymdeithas i barhau i gyflawni canlyniadau o ansawdd uchel yn y dyfodol trwy helpu i gadw, recriwtio ac yna, sicrhau bod aelodau Bwrdd a Phwyllgor o galibr uchel yn atebol, nawr ac yn y dyfodol.

Mae gan Aelodau Bwrdd yr hawl i gael treuliau wedi'u hawdurdodi yn gywir, sy'n codi wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau. Ni fydd Aelod Bwrdd sy'n gweithredu gydag ewyllys da yn atebol i'r Gymdeithas am unrhyw golled.



Yn ystod 2022, cynhaliwyd rhai cyfarfodydd Bwrdd dan drefniant rhith, a bu modd cynnal rhai eraill wyneb yn wyneb ar draws Cymru.

Aelodau Bwrdd

Etholir Aelodau Bwrdd i'r Bwrdd yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol. Rhaid eu bod yn Aelod Bwrdd presennol sy'n sefyll i gael eu hailethol neu mae'n rhaid iddynt gael eu henwebu gan gyfranddaliwr presennol.

Rhaid i unrhyw aelod Bwrdd fod yn gyfranddaliwr o'r Gymdeithas. Mae gofyn i gyfranddalwyr dalu ffi o bunt. Rhaid i gyfranddalwyr ddangos eu bod yn gallu gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r gwaith o reoli'r Gymdeithas yn y dyfodol, ac mae rheidrwydd arnynt i weithredu er budd y Gymdeithas, er budd y gymuned.

Gall darpar gyfranddalwyr gael rhagor o wybodaeth trwy ysgrifennu at Ysgrifennydd y

Gymdeithas yn y cyfeiriad a nodir yn nodyn 33 neu trwy ein gwefan.

Mae'r Bwrdd yn penderfynu ar y meini prawf dethol ar gyfer cyfranddalwyr sy'n dymuno sefyll mewn etholiad i fod yn Aelodau Bwrdd.

Gofynion

Mae gofyn bod Aelodau Bwrdd a chyfranddalwyr sy'n dymuno sefyll mewn etholiad fodloni'r meini prawf canlynol:

- (a) nid ydynt wedi cael eu gwahardd rhag cyflawni rôl cyfarwyddwr cwmni, aelod bwrdd o gymdeithas gofrestredig arall neu fel ymddiriedolwr elusen am unrhyw reswm;
- (b) nid ydynt wedi cael euogfarn am gyflawni trosedd dditiadwy nad yw wedi'i disbyddu neu na ellir ei disbyddu;
- (c) nid oes cyfamod wedi cael ei wneud gyda chredydwyr yr unigolyn hwnnw yn gyffredinol er mwyn talu dyledion yr unigolyn hwnnw;
- (d) nid ydynt wedi torri amodau eu cytundeb tenantiaeth neu eu les mewn ffordd berthnasol neu ddifrifol ac maent wedi methu cywiro hyn o fewn amserlen resymol ac nid ydynt wedi torri amodau gorchymyn

adennill meddiant ataliedig, ac nid ydynt yn destun unrhyw rai o'r mathau canlynol o orchymyn llys: gorchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol, gwaharddeb ymddygiad gwrthgymdeithasol, tenantiaeth isradd, neu orchymyn cau;

- (e) nid oes unrhyw ymarferydd meddygol sy'n trin yr unigolyn hwnnw wedi mynegi barn ysgrifenedig i'r Gymdeithas sy'n datgan nad yw'r unigolyn yn gallu gweithredu fel Aelod Bwrdd mewn ffordd gorfforol neu feddyliol, ac y gallent fod yn y sefyllfa honno am dros dri mis;
- (f) nid oes unrhyw lys wedi gwneud gorchymyn, am reswm sy'n ymwneud ag iechyd meddwl yr unigolyn hwnnw, sy'n atal yr unigolyn hwnnw rhag arfer unrhyw bwerau neu hawliau a fyddai gan yr unigolyn hwnnw fel arall yn llwyr neu'n rhannol;
- (g) nid ydynt wedi bod yn absennol o dri chyfarfod olynol y Bwrdd heb sicrhau caniatâd arbennig i fod yn absennol;
- (h) maent yn parhau i fod yn gyfranddaliwr neu maent yn gyflogai unrhyw gorff arall y mae'n rhaid i'w gyfrifon gael eu cyfuno gyda chyfrifon y Gymdeithas.

Aelodau Bwrdd Cyfetholedig

Gall y Bwrdd etholedig benodi hyd at dri Aelod cyfetholedig i'r Bwrdd os bydd y Bwrdd yn penderfynu ar unrhyw adeg bod angen sgiliau atodol. Penodir Aelodau Cyfetholedig am gyfnod penodol a bydd ganddynt yr un hawliau pleidleisio ag Aelodau Bwrdd etholedig, ac eithrio nad oes ganddynt yr hawl i bleidleisio am faterion sy'n ymwneud â swyddi ar y Bwrdd neu faterion sy'n effeithio ar gyfranddalwyr.

Yn ogystal, mae'r Bwrdd yn penderfynu ar y meini prawf mewn perthynas ag unigolion i'w cyfethol fel Aelodau Bwrdd.

Amrywiaeth a sgiliau

Gofynion y Bwrdd o ran sgiliau, rhinweddau a phrofiad ei Aelodau yw bod yn rhaid iddynt, ar y cyd:



feddu ar gydbwysedd o sgiliau priodol gan gynnwys – ond heb eu cyfyngu i – sgiliau busnes; llywodraethu; rheoli tai; eiddo a datblygu; cwsmeriaid a chymunedau;



adlewyrchu'r cymunedau y mae'r Gymdeithas yn gweithredu ynddynt; ac



adlewyrchu'r amrywiaeth mewn cymdeithas o ran cydbwysedd rhwng nodweddion gwarchoddedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Ar lefel unigol, rhaid eu bod yn gallu cyflawni'r canlynol hefyd:



gallu rhoi'r amser priodol angenrheidiol er mwyn cael hyfforddiant, a mynychu a pharatoi ar gyfer cyfarfodydd;



gallu gweithio mewn tîm a rhoi ystyriaethau personol i'r neilltu; a



dangos empathi gyda thai cymdeithasol.



Cynhelir ymarfer arfarnu helaeth bob blwyddyn, sy'n asesu perfformiad Aelodau Bwrdd unigol yn ogystal â pherfformiad y Bwrdd fel tîm. Bob blwyddyn, bydd y Bwrdd yn ystyried y graddau y bodlonir yr uchod gan Aelodau Bwrdd ac a oes unrhyw fylchau o ran sgiliau a phrofiad.

Cyfnod swydd

Etholir aelodau yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol am gyfnod o dair blynedd



Blwyddyn 1 Blwyddyn 2 Blwyddyn 3



Blwyddyn 4 Blwyddyn 5 Blwyddyn 6



Blwyddyn 7 Blwyddyn 8 Blwyddyn 9

Gall Aelodau Bwrdd wasanaethu am uchafswm o dri thymor yn olynol



Blynedd 10 -12

Mae'n ofynnol bod bwllch clir o 3 blynedd ar ôl gwasanaethu am dri thymor yn olynol cyn y caiff Aelod ailymuno â'r Bwrdd mewn unrhyw swydd.

Rhwymedigaethau Aelodau Bwrdd

Mae rhwymedigaethau cyfunol a phersonol Aelodau Bwrdd fel a ganlyn:



deall ac arddel gwerthoedd ac amcanion y Gymdeithas;



monitro, goruchwylio a rheoli materion y Gymdeithas fel ceidwaid ei chenhadaeth;



gweithredu mewn ffordd wrthrychol bob amser a gwasanaethu buddiannau'r Gymdeithas cyn eu buddiannau personol neu fuddiannau unrhyw sector penodol o'r gymuned a wasanaethir gan y Gymdeithas;



defnyddio barn annibynnol ynghylch strategaeth, perfformiad ac atebolrwydd;



sicrhau y gwneir cyfraniad effeithiol trwy baratoi ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau, mynychu yn rheolaidd a chymryd rhan mewn trafodaethau a phenderfyniadau;



gweithredu fel cenhadon y Gymdeithas bob amser;



cydnabod bod gweithredu o ddifrif yn amcan, heb droi'r Gymdeithas yn fusnes sy'n masnachu er mwyn gwneud elw yn unig;



cadw at Reolau a Chod Llywodraethu y Gymdeithas; a



delio gyda'r broses o benodi a diswyddo Prif Weithredwr y Grŵp.

Bydd rhodd o £30,000 i Ofalwyr Cymru yn helpu i ofalu am y cannoedd ar filoedd o ofalwyr yng Nghymru. Bydd yr elusen yn cael £10,000 y flwyddyn am dair blwyddyn yn olynol gan Grŵp Tai Wales & West.



Bwrdd Rheoli



Alex Ashton
Cadeirydd y Bwrdd

Etholwyd Alex i'r Bwrdd yn 2016, ac mae wedi bod yn Aelod yn y gorffennol hefyd. Mae'n weinidog eglwys ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac mae ganddo gysylltiadau cryf ar draws y gymuned a llywodraeth leol, ar ôl bod yn gweithio mewn adran budd-daliadau awdurdod lleol am dros ddeng mlynedd yn flaenorol. Mae gan Alex radd Meistr mewn Gweinyddu Busnes ac mae ganddo brofiad o wasanaethu ar fyrddau amrywiol fel ymddiriedolwr elusennol ac fel llywodraethwr ysgol.

Presenoldeb y Bwrdd



John McPeake
Is-Gadeirydd y Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg
Cyfetholwyd John i'r Bwrdd yn 2014 ac fe'i etholwyd i'r Bwrdd yn 2015. Mae'n cyflawni rolau bwrdd yng Nghanolfan Gydweithredol Tystiolaeth Tai y DU ac yn Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Gogledd Iwerddon hefyd. Yn flaenorol, arferai John fod yn Brif Weithredwr Gweithrediaeth Tai Gogledd Iwerddon ac mae'n Athro Anrhydeddus Cynllunio ym Mhrifysgol y Frenhines, Belfast.

Presenoldeb y Bwrdd



Ian Anderson
Cyfetholwyd Ian i'r Bwrdd yn 2020 ac fe'i etholwyd i'r Bwrdd yn 2021. Mae ganddo radd BSc mewn Rheoli Tai, Cyllid a Pholisi. Mae wedi gweithio ym maes budd-daliadau tai, Cymdeithas Tai BAME ac ar lefel uwch ym maes rheoli tai ac anghenion arbennig. Mae Ian yn byw yng Nghastell-nedd lle y mae'n weinidog eglwys. Mae'n cyflawni rôl gwirfoddol fel dirprwy gaplan arweiniol Heddlu De Cymru hefyd, ac fel caplan Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe Bro Morgannwg.

Presenoldeb y Bwrdd



Peter Harding

Llanwodd Peter sedd a ddigwyddodd ddod yn wag yn 2019 ac fe'i etholwyd i'r Bwrdd yn 2020. Bu'n rheolwr ym maes tai, gan arbenigo ym maes tai â chymorth, rheolaeth ranbarthol a datblygiad polisi a bu'n was sifil i Lywodraeth Cymru. Mae wedi rhedeg ei fusnes ei hun ac ar hyn o bryd, mae'n gyfarwyddwr Partneriaeth Cadenza. Mae ganddo brofiad helaeth o'r trydydd sector, mae'n Gadeirydd Pedal Power Caerdydd ac yn Drysorydd Canolfan y Celfyddydau Plas Llantarnam. Mae ganddo radd Meistr mewn Gweinyddu Cyhoeddus.

Presenoldeb y Bwrdd



Sarah Porter

Ymunodd Sarah â'r Pwyllgor Uniondeb ac Archwilio yn 2014 ac fe'i etholwyd i'r Bwrdd yn 2015. Mae'n gyfreithiwr ymgyfreitha profiadol, gan arbenigo mewn ymgyfreitha eiddo ac anghydfodau tenantiaeth, ac mae'n gweithio fel Partner a Phennaeth Ymgyfreitha RDP Law. Yn ogystal, mae Sarah yn gyfreithiwr iechyd meddwl achrededig sy'n cynrychioli cleientiaid mewn gwrandawriadau tribiwnlys i herio'r penderfyniad i'w secsiynu, ac mae'n cynrychioli cleientiaid yn y Llys Gwarchod. Mae Sarah yn gyfryngwr achrededig hefyd.

Presenoldeb y Bwrdd



Christine Salter

Etholwyd Christine i'r Bwrdd ym mis Mehefin 2020. Bu'n gyfrifydd cymwys am dros 40 mlynedd, gan dreulio ei gyrfa mewn llywodraeth leol gyda chyfrifoldeb dros ystod gyfan y gwasanaethau cymorth ar gyfer y cyngor mwyaf yng Nghymru. Mae ganddi brofiad helaeth ym maes cyllid corfforaethol, rheolaeth strategol, datblygiad polisi a chynllunio ariannol. Ers iddi ymddeol yn 2019, mae Christine wedi bod yn gwirfoddoli gyda phlant ac oedolion agored i niwed ac mae'n gyfaill dementia.

Presenoldeb y Bwrdd

Allwedd

- Wedi mynychu
- Heb fynychu, ond wedi anfon ymddiheuriadau



Jemma Bere

Cyfetholwyd Jemma i'r Bwrdd yn 2014 ac fe'i hetholwyd i'r Bwrdd yn 2015. Mae'n Rheolwr Polisi ac Ymchwil i Cadwch Gymru'n Daclus, gan arbenigo mewn cynaladwyedd amgylcheddol a newid ymddygiad. Yn flaenorol, bu Jemma yn gweithio i CREW Adfywio Cymru a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd, a bu'n ymddiriedolwr ar gyfer ei Grŵp a'i Lloches Cymorth i Fenywod lleol. Mae Jemma yn un o breswylwyr y Gymdeithas yn Aberhonddu.

Presenoldeb y Bwrdd



Ruth Eley

Cyfetholwyd Ruth i'r Bwrdd yn 2015 ac fe'i hetholwyd i'r Bwrdd yn 2016. Mae gan Ruth gefndir ym maes gofal cymdeithasol, gyda dros 40 mlynedd o brofiad mewn llywodraeth leol, GIG a'r Adran Iechyd. Mae hi'n Ymddiriedolwr Together in Dementia Everyday (TIDE) ac yn Gyfarwyddwr Life Story Network a'i chwmmi ymgynghori ei hun, ac mae ei gwaith yn ddiweddar wedi canolbwyntio ar bobl sydd â dementia a gofalwyr teuluol.

Presenoldeb y Bwrdd



Ivor Gittens

Cyfetholwyd Ivor i'r Bwrdd yn 2019 ac fe'i etholwyd i'r Bwrdd yn 2021. Ar ôl gyrfa lawn yn yr Awyrlu Brenhinol, bu'n gweithio i'r Weinyddiaeth Amddiffyn fel Swyddog Hyfforddiadol. Mae ganddo brofiad helaeth o wirfoddoli, bu'n aelod o Bwyllgor Prawf De Morgannwg ac yn aelod o Awdurdod Heddlu De Cymru. Yn ogystal, treuliodd Ivor amser fel aelod o Fwrdd Monitro Annibynnol Carchar Parc, Pen-y-bont ar Ogwr, ac mae'n aelod o gorff llywodraethu dwy ysgol yng Nghaerdydd.


Presenoldeb y Bwrdd



Kathy Smart

Etholwyd Kathy i'r Bwrdd ym mis Mehefin 2017. Mae Kathy wedi bod yn aelod yn y gorffennol ac mae wedi bod yn Gadeirydd yn flaenorol. Mae hi'n ymwneud gryn dipyn â gwaith elusennol ac mae ganddi radd MSc mewn Entrepreneuriaeth a Busnes. Mae ganddi brofiad helaeth ym myd busnes ac mae'n byw ym Mro Morgannwg.

Presenoldeb y Bwrdd



Kevin Taylor

Cyfetholwyd Kevin i'r Bwrdd yn 2016 ac fe'i etholwyd i'r Bwrdd yn 2017. Mae Kevin yn gyfrifydd cymwys ac mae ganddo dros 40 mlynedd o brofiad helaeth. Ers iddo ymddeol yn 2014, mae wedi bod yn weithgar ym maes tai, gan wirfoddoli gyda menter gymdeithasol ac elusen yn Aberteifi. Mae'n byw yn Sir Benfro ac mae'n parhau i ddysgu Cymraeg.

Presenoldeb y Bwrdd



Joy Williams

Llanwodd Joy sedd a ddiwyddodd ddod yn wag ar y Bwrdd yn 2018 i ddechrau, yna fe'i hetholwyd i'r Bwrdd ym mis Mehefin 2020. Bu'n athrawes gynradd yn flaenorol, cyn gweithio ar brosiect cyflogadwyedd y gwasanaethau cymdeithasol. Mae wedi rhedeg ei busnesau ei hun hefyd. Mae hi wedi gweithio yn y sector digartrefedd ar draws Cymru er 2012. Mae ei meysydd arbenigol yn cynnwys polisi a deddfwriaeth digartrefedd, a chomisiynu yn y sector cyhoeddus.

Presenoldeb y Bwrdd

Ymddiswyddiadau

Ni fu unrhyw ymddiswyddiadau yn 2022.

Ymddeoliadau


Pan fydd aelod Bwrdd wedi gwasanaethu am naw mlynedd, byddant yn ymddeol o'r Bwrdd. Ni fu unrhyw ymddeoliadau yn 2022.

Amrywiaeth yn y Bwrdd


Rhyw




Oedran




Anabledd



Ethnigrwydd



Cyfeiriadedd Rhywiol



ASTUDIAETH ACHOS

Estyn allan i gynorthwyo

Cymeradwyodd y Bwrdd rodd o £30,000 i Age Cymru er mwyn helpu i ariannu gwasanaeth cyngor a chyfeillio dros y ffôn dros y dair blynedd nesaf, gan helpu i fynd i'r afael â digartrefedd ac ynigrwydd yng Nghymru.


Age Cymru yw'r elusen genedlaethol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru, a bydd yn cael £10,000 y flwyddyn am dair blwyddyn yn olynol. Mae gwasanaeth 'Ffrind mewn Angen' Age Cymru yn darparu galwadau cyfeillgarwch am ddim dros y ffôn i bobl yng Nghymru sy'n 70 oed neu'n hŷn. Fe'i lanswyd yn ystod pandemig Covid-19 yn wreiddiol, ac mae wedi cynorthwyo dros 2,000 o bobl hŷn hyd yn hyn.

Bydd y cyllid hwn yn galluogi'r gwaith hwn i barhau, ynghyd â'u gwasanaeth gwybodaeth a chyngor.

Dywedodd Victoria Lloyd, prif weithredwr Age Cymru: "Mae'r rhodd hon yn gyfraniad arwyddocaol i rai o brif wasanaethau rheng fl aen yr elusen. Mae ein galwadau cyfeillgarwch yn darparu cysyllti ad hanfodol i bobl hŷn sy'n byw ar eu pen eu hunain. I rai unigolion, hwn fydd yr unig sgwrs y byddant yn ei chael gyda rhywun arall yr wythnos honno."

"A gyda'r argyfwng costau byw yn bryder mawr, mae angen Cyngor

Age Cymru yn fwy nag erioed er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y wybodaeth a'r cyngor cywir ynghylch eu hamgylchiadau nhw. Bydd pobl hŷn ar draws Cymru yn cael budd o'r cronfeydd hyn, a hoffem ddiolch i Dai Wales & West am estyn allan i gynorthwyo pobl hŷn yn ystod cyfnod mor heriol."



pobl hŷn yn ystod cyfnod heriol

Dywedodd Alex Ashton, Cadeirydd y Bwrdd: “Mae unigrwydd ac ynysigrwydd yn dod yn fwyfwy amlwg ar draws ein cymunedau ac mae'r gwasanaethau a ddarparir gan Age Cymru yn gwneud gwahaniaeth enfawr i amrediad o bobl.”

“Mawr obeithiwn y bydd ein cyfraniad yn galluogi'r elusen i dyfu'r gwasanaeth a helpu'r rhai y mae angen cymorth arnynt.”

I gael gwybod mwy am wasanaeth Ffrind mewn Angen Age Cymru, trowch at: agecymru.org.uk/friend



Rheolaeth fewnol

Mae'r Bwrdd yn cydnabod ei gyfrifoldeb dros sicrhau bod gan y Gymdeithas a'r Grŵp systemau rheolaeth mewn grym sy'n briodol ar gyfer yr amgylcheddau busnes amrywiol y maent yn gweithredu ynddynt. Cynlluniwyd y rheolaethau hyn er mwyn cynnig sicrwydd rhesymol ynghylch:



dibynadwyedd gwybodaeth ariannol a ddefnyddir yn y Gymdeithas a'r Grŵp neu er mwyn ei chyhoeddi;



y ffaith bod cofnodion cyfrifyddu cywir yn cael eu cadw; a



diogelu asedau yn erbyn trefnu neu ddefnydd anawdurdodedig.

Cyfrifoldeb y Bwrdd yw pennu a chynnal systemau rheolaeth ariannol fewnol.

Dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid sicrwydd heb amod y gall systemau o'r fath eu cynnig yn erbyn colled neu gamdatgan ariannol sylweddol. Mae elfennau allweddol yn cynnwys sicrhau:



bod polisiau a gweithdrefnau ffurfiol mewn grym, gan gynnwys dogfennaeth systemau a rheolau allweddol sy'n ymwneud â dirprwyo awdurdod, sy'n caniatáu monitro rheolaethau a chyfyngu defnydd anawdurdodedig o asedau'r Gymdeithas;



bod staff sy'n meddu ar brofiad a chymwysterau addas yn cymryd cyfrifoldeb dros swyddogaethau busnes pwysig (sefydlwyd gweithdrefnau blynyddol er mwyn cynnal safonau perfformiad, yn ogystal â hunan-ardystio rheoli risg ym mhob maes);



bod y Bwrdd yn cynnal adolygiad chwarterol o'r prif risgiau y mae'r Gymdeithas a'r Grŵp yn eu hwynebu;



bod rhagolygon yn cael eu paratoi sy'n caniatáu i'r Bwrdd fonitro'r prif risgiau busnes a'r amcanion a'r cynnydd tuag at gynlluniau ariannol a bennwyd ar gyfer y flwyddyn a'r tymor canolig;



bod cyfrifon rheoli rheolaidd yn cael eu paratoi yn brydlon, gan ddarparu'r wybodaeth

ariannol a gwybodaeth arall berthnasol, dibynadwy a diweddaraf ac amrywiadau arwyddocaol o ragolygon yn cael eu hymchwilio pan fo hynny'n briodol;



bod yr holl fentrau newydd, ymrwymadau mawr a phrosiectau buddsoddi arwyddocaol yn destun gweithdrefn awdurdodi ffurfiol, trwy gyfrwng pwyllgorau perthnasol sy'n cynnwys Aelodau Bwrdd ac eraill;



bod y Pwyllgor Archwilio a Risg yn adolygu adroddiadau gan reolwyr, y Rheolwr Archwilio Mewnol a chan yr archwilwyr allanol er mwyn cynnig sicrwydd rhesymol bod gweithdrefnau rheoli mewn grym ac yn cael eu dilyn a



bod gweithdrefnau ffurfiol wedi cael eu sefydlu er mwyn cymryd camau priodol i gywiro gwendidau a nodwyd o'r adroddiadau uchod.

Mae'r Bwrdd yn teimlo'n fodlon bod y Gymdeithas a'r Grŵp yn meddu ar adnoddau digonol er mwyn parhau i fod mewn bodolaeth gweithredol hyd y gellir rhagweld ac ar hyn o bryd, nid yw'n gweld unrhyw reswm i'r sefyllfa newid.

Mae'r Bwrdd yn fodlon hefyd nad oes unrhyw wendidau yn system rheolaeth fewnol y Gymdeithas a allai arwain at golledion sylweddol, cynlluniau wrth gefn neu ansicrwydd y byddai gofyn eu datgelu yn y datganiadau ariannol neu yn adroddiad yr archwilydd am y datganiadau ariannol.

Sicrwydd a risg

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i reoli risg er mwyn cyflawni gweledigaeth a nodau'r Grŵp, gan barhau i fod yn fusnes hyfyw a chynaliadwy. Mae rheoli risg yn rhan bwysig o unrhyw sefydliad llwyddiannus a gall ei ddefnyddio, i helpu sicrhau gweithgarwch cynllunio prosiect a busnes effeithiol, fel y caiff adnoddau a sylw eu cyfeirio mewn ffordd briodol.

Mae'r Bwrdd yn glir am y prif risgiau y mae'r Gymdeithas yn eu hwynebu ac mae'n cael sicrwydd addas bod y risgiau hyn wedi cael eu lliniaru mewn ffordd gywir. Yn gyffredinol, mae'r Grŵp yn gweithredu mewn amgylchedd risg isel a byddai'r rhan fwyaf o'r digwyddiadau neu bethau y gallent gael effeithiol ar y busnes yn cymryd amser sylweddol i ddigwydd. Byddai unrhyw ddigwyddiad o'r fath yn cael ei

nodi trwy gyfrwng rheolaeth dydd i ddydd cyn bod niwed sylweddol yn digwydd.

Mae'r Bwrdd yn cael diweddariadau chwarterol am berfformiad gweithredol ac ariannol y sefydliad, sy'n cynnwys yr hunanwerthusiad treigl a gynhelir er mwyn sicrhau gwelliant parhaus ym mhob maes o'r busnes. Mae hyn yn sicrhau bod ffocws digonol yn cael ei gynnal ar y materion hynny sy'n peri risg i gyflawni amcanion strategol y Bwrdd os na chânt eu rheoli mewn ffordd gywir. Yn ogystal, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys sicrwydd bod y trefniadau rheoli angenrheidiol mewn grym ac yn effeithiol wrth ddiogelu'r busnes a lleihau risg canlyniadau negyddol gymaint ag y bo modd, neu bod camau'n cael eu cymryd pan na fydd hyn yn wir.

Mae'r Bwrdd wedi nodi deg maes risg bras y mae gofyn iddo gael sicrwydd yn eu cylch, ac mae'r rhain yn cynnwys yr holl elfennau sy'n angenrheidiol er mwyn gallu llywodraethu'r Gymdeithas yn dda, darparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y cwsmer a meddu ar hyfywedd ariannol.

O fewn y deg maes hwn, ceir prif systemau'r Gymdeithas (y gwasanaethau y mae cwsmeriaid yn eu cael), y gwasanaethau 'cefn swyddfa' sy'n galluogi'r busnes i redeg gan gynnwys rheolaeth ariannol, ei darpariaeth er mwyn diogelu iechyd a diogelwch staff a chwsmeriaid a'i threfniadau arwain a llywodraethu. Mae Fframwaith Sicrhau y Bwrdd yn cefnogi pob maes risg.

Ymwelodd aelodau Bwrdd a staff WWH a chynghorwyr lleol â'n datblygiad newydd o 100 o gartrefi yn Ffordd Yr Haearn yn Grangetown, Caerdydd.



Maes risg	Crynodeb o'r risg	Yr hyn yr ydym yn rhoi sylw iddo
Incwm digonol	NAD oes incwm digonol yn dod i mewn	Incwm y rhai sy'n hunan-dalu, incwm gan y system budd-daliadau, colled oherwydd eiddo gwag ac incwm grant
Gwariant	NA chaiff yr holl wariant ei reoli	Gwariant ar ddatblygu, gwariant ar gynnal a chadw, gwariant ar orbenion a rheoli staff ac adnoddau
Argaeledd cronfeydd i gyflawni ymrwymadau	NAD oes cronfeydd digonol ar gael i gyflawni ymrwymadau	Llif arian ac arian rhydd, ein sgôr credyd a'n cyfamodau cyllido
Atal twyll a dwyn	NAD yw twyll a dwyn yn cael ei atal	Trafodion ariannol, cymryd taliadau, y gallu i symud arian a'r gallu i ddwyn nwyddau
Diogelu data a systemau TGCh	NAD yw colli systemau neu data yn cael ei atal	Gallu seilwaith, gallu cymhwysiad, rheolaeth a mynediad i ddata a diogelwch dyfeisiau
Cydymffurfiaeth eiddo	NAD yw cartrefi yn ddiogel i bobl fyw ynddynt	Gwasanaethu nwy, diogelwch trydanol, diogelwch tân, legionella, asbestos, gwasanaethu lifftiau, meysydd chwarae a SATC
Diogelwch preswylwyr	NAD yw preswylwyr yn ddiogel rhag niwed neu gamdriniaeth	Cam-drin corfforol, cam-drin ariannol, arwahanrwydd ac unigrwydd, aflonyddu neu fwlio a diffyg neu ansawdd gwael yr ymateb i'r Larwm Brys
Iechyd a diogelwch staff	NAD yw staff yn ddiogel rhag niwed neu gamdriniaeth	Cam-drin corfforol, effaith damweiniau yn y gwaith ar iechyd neu ddiogelwch yn y gwaith ac aflonyddu neu fwlio
Llywodraethu ac arweinyddiaeth	NAD yw'r staff a'r aelodau Bwrdd cywir yn eu lle fel bod WWHG yn parhau i fod yn gyfreithlon, gan gyflawni ei amcanion	Nifer y sgiliau sydd gan staff, trefniadau a chyfansoddiad y Bwrdd a barnau a chanllawiau rheoliadol
Rhwymedigaethau busnes a gwasanaeth landlord	NAD yw WWHG yn cyflawni ei rwymedigaethau fel landlord/darparwr gwasanaeth	Rhwymedigaethau cynnal a chadw a chyflwr eiddo, torri amodau tenantiaeth a gofynion rheoliadol

Sut ydym yn mesur ac yn adrodd	Statws gweddilliol
Mae ein ffyrdd o weithio a'n system tai newydd wedi caniatáu i ni barhau i gasglu mwy o rhent a lleihau ein hôl-ddyledion. Mae'r system yn dweud wrthym faint y mae'r preswlydd yn ei dalu a faint sy'n dod o'r system budd-daliadau. Mae'n rhoi gwybod i ni pan na fydd yr hyn yr oeddem yn disgwyl iddo ddigwydd wedi digwydd fel ein bod yn ymateb yn gyflym. Rydym yn troi eiddo o gwmpas yn gyflym, gan reoli colledion eiddo gwag a sicrhau cymaint o incwm ar ffurf grantiau ag y bo modd.	CANOLIG 
Rheolir costau yn llym, ac mae gofyn i'r Bwrdd gymeradwyo codiadau cyflog. Cyflawnir rhan fwyaf y gwaith cynnal a chadw gan Cambria. Mae gennym drefniadau partneru hirdymor i adeiladu cartrefi newydd. Mae gofyn sicrhau cymeradwyaeth flynyddol ar gyfer yr holl weithgarwch ail-fuddsoddi mewn eiddo ac mae modd addasu lefelau gwaith os bydd costau uned yn codi.	CANOLIG 
Mae gennym strategaeth trysorlys glir a pherthnasoedd cadarn gydag amrediad o fenthycwyr. Ceir gweithgarwch monitro perfformiad chwarterol manwl gyda ffocws ar lif arian rhydd, ein sgôr credyd a'n hylifedd, ynghyd â gweithgarwch adrodd ychwanegol am hylifedd yn ystod pob cyfarfod Bwrdd. Adolygir cyfamodau bob chwarter a chaiff cronfeydd eu sicrhau ymhell o flaen pryd, gyda chymorth cyfleuster credyd cylchol.	ISEL 
Mae gennym drefniadau gwahanu dyletswyddau a rheolaethau mynediad clir ar yr holl systemau bancio, ac rydym yn adolygu gweithgarwch cysoniadau banc yn ddyddiol. Ein nod yw lleihau unrhyw drafodion ariannol gymaint ag y bo modd, gan wneud trefniadau electronig amgen. Mae gennym gofrestrau asedau clir a phrosesau archwilio perthnasol.	ISEL 
Rydym wedi gwneud buddsoddiad clir mewn asedau a meddalwedd, gyda chymorth yr arbenigedd o fewn ein strwythur staff. Mae gennym gynlluniau adfer mewn argyfwng a pharhad busnes clir, a weithiodd yn dda yn ystod y pandemig. Rydym yn cynnal archwiliadau gwe-rwydo ac archwiliadau diogelwch gwybodaeth rheolaidd.	CANOLIG 
Mae gennym ddogfennau fframwaith sicrwydd cydymffurfiaeth sefydledig, gyda chymorth sgiliau a systemau sefydledig. Cyflawnir llawer o'n gwaith cydymffurfio yn fewnol gan ddefnyddio Cambria, a'r gweddill gyda phartneriaid hirdymor yr ymddiriedir ynddynt. Ceir system adrodd haenog, gydag adroddiadau lefel rheoli yn cael eu huwchgyfeirio i adroddiadau cydymffurfiaeth eiddo chwarterol i'r Bwrdd.	CANOLIG 
Mae gennym bolisiâu diogelu clir ac rydym wedi cynnig hyfforddiant helaeth i'r holl staff perthnasol. Cynhelir archwiliadau iechyd a diogelwch rheolaidd a system adrodd haenog i'r rheolwyr ac i'r Bwrdd. Yn ystod y pandemig, rydym wedi gweithredu mesurau angenrheidiol er mwyn cadw preswylwyr mor ddiogel ag y bo modd, gan ddilyn canllawiau'r llywodraeth bob tro.	ISEL 
Mae gennym bolisi iechyd a diogelwch clir a'r asesiadau risg angenrheidiol, gyda chymorth fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.	ISEL 
Mae gennym staff profiadol a Bwrdd amrywiol sy'n manteisio ar ystod eang o sgiliau. Mae ein rheolau llywodraethu yn gadarn ac yn cyd-fynd â Chod Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru (CCC). Mae gennym broses hunanasesu drylwyr yn ei lle er mwyn dilysu bod gan y Bwrdd fynediad i'r wybodaeth gywir ar yr adeg gywir.	ISEL 
Mae gennym ddiwylliant clir, gyda set o egwyddorion gweithredol sy'n tywys ein staff. Rydym yn cynnal arolygon rheolaidd o gyflwr y stoc ac ymarferion galw preswylwyr er mwyn sicrhau ein bod yn siapio ac yn gweithredu ein gwasanaethau yn unol ag anghenion ein preswylwyr.	ISEL 

Tîm gweithredol



Anne Hinchey

Prif Weithredwr y Grŵp

Ymunodd Anne â'r Grŵp ym 1999 a daeth y Brif Weithredwr y Grŵp yn 2006. Mae ganddi brofiad helaeth yn y sector cymdeithasau tai, y sector gwirfoddol a'r sector awdurdodau lleol yng Nghymru, ar ôl cychwyn fel casglwr rhent ym 1985 yng Nghaerdydd. Mae gan Anne radd BA mewn Hanes a Gwleidyddiaeth, gradd MA mewn Addysg, ac mae'n Gymrawd y Sefydliad Tai Siartredig.



Shayne Hembrow

Dirprwy Brif Weithredwr y Grŵp

Ymunodd Shayne â'r Grŵp yn 2006 a daeth yn Ddirprwy Brif Weithredwr y Grŵp yn 2012. Mae ganddo dros 30 mlynedd o brofiad ym maes tai ac adfywio. Treuliodd Shayne saith mlynedd yn y sector preifat cyn gweithio i awdurdod lleol ac yna, i'r Comisiwn Archwilio.



Alex Stephenson

Cyfarwyddwr Gweithredol (Strategaeth Gorfforaethol a Gwasanaethau)

Mae gan Alex dros 15 mlynedd o brofiad ym maes tai. Ar ôl ymuno ag adran gyllid y Grŵp yn 2004 fel cyfrifydd cymwys, aeth ymlaen i gyflawni rôl y Pennaeth Gwasanaethau Eiddo a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Eiddo cyn dod yn Gyfarwyddwr Gweithredol (Strategaeth Gorfforaethol a Gwasanaethau) ar ddechrau 2020.



Stuart Epps

Cyfarwyddwr Gweithredol (Cyllid a Datblygu)

Ymunodd Stuart â'r Grŵp yn 2011 a daeth yn Gyfarwyddwr Gweithredol (Cyllid a Datblygu) ar ddechrau 2016. Mae ganddo dros 20 mlynedd o brofiad fel gweithiwr proffesiynol cyllid uwch ym maes datblygu eiddo, ymgynghori yn yr amgylchedd adeiledig ac adeiladu yng Nghymru. Mae Stuart yn Gyfrifydd Siartredig cymwys ac mae'n Ysgrifennydd y Cwmni hefyd.



Steve Porter

Cyfarwyddwr Gweithredol (Datblygu Sefydliadol)

Ymunodd Steve â'r Grŵp yn 2008 fel Pennaeth Gwasanaethau Eiddo cyn dod yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau yn 2012, yn Gyfarwyddwr Gweithredol (Asedau) yn 2019 ac yn Gyfarwyddwr Gweithredol (Datblygu Sefydliadol) yn 2022. Mae'n meddu ar gymhwyster proffesiynol ac mae ganddo dros 30 mlynedd o brofiad mewn amrywiaeth o rolau arwain uwch ym maes tai, adeiladu a chynnal a chadw.



Joanna Davoile

Cyfarwyddwr Gweithredol (Asedau)

Mae Joanna wedi bod yn gweithio yn y sector tai cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr ers dros 20 mlynedd, ar ôl treulio'r rhan fwyaf o'r cyfnod hwnnw yn datblygu tai cymdeithasol newydd. Mae gan Jo ddiploma arweinyddiaeth ôl-raddedig, gradd Meistr mewn Gweinyddu Busnes ac mae wedi sicrhau achrediad fel Hyfforddwr Proffesiynol. Ymunodd Jo â'r Grŵp fel Cyfarwyddwr Datblygu yn 2019 cyn dod yn Gyfarwyddwr Gweithredol (Asedau) yn 2022.

Pwyllgor Archwilio a Risg

Cyfansoddiad



Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnwys o leiaf 8 aelod, a bydd hyd at 3 ohonynt yn **aelodau annibynnol**.

Mae gan **aelodau annibynnol** yr holl hawliau a'r cyfrifoldebau sydd gan yr Aelodau Bwrdd sy'n eistedd ar y Pwyllgor ond ni allant fod yn aelodau o unrhyw bwyllgorau eraill neu Fwrdd y Gymdeithas.

Mae'r Pwyllgor **yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn**, sef yr hyn a fernir yn briodol er mwyn ei alluogi i gyflawni ei rôl a'i gyfrifoldebau mewn ffordd effeithiol.

Cyfrifoldebau

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn is-bwyllgor o Fwrdd Grŵp WWH, a sefydlwyd i helpu'r Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau.

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am gynnig sicrwydd i'r Bwrdd trwy ddwyn craffu annibynnol a her i unrhyw fater yn ei gylch gwaith, yn unol â phenderfyniad Bwrdd Grŵp WWH. Mae hyn yn cynnwys cael trosolwg o:

- drefniadau rheoli mewnol a phrosesau rheoli risg; a
- swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol.

Aelodau Bwrdd



John McPeake

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg

Presenoldeb



Peter Harding

Presenoldeb



Kevin Taylor

Presenoldeb



Christine Salter

Presenoldeb



Ruth Eley

Presenoldeb



Ian Anderson

Presenoldeb

Aelodau Annibynnol



Julie Wilson-Thomas

Presenoldeb



Lisa Lake

Presenoldeb

Allwedd

- Wedi mynychu
- Heb fynychu, ond wedi anfon ymddiheuriadau

Ymddiswyddiadau

Ni fu unrhyw ymddiswyddiadau yn ystod y flwyddyn.

Archwiliad Mewnol

Darparir y gwasanaeth Archwilio Mewnol gan dîm mewnol bychan, dan arweiniad Rheolwr Archwilio Mewnol sy'n aelod cymwys o'r Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr, ac y mae ganddo flynyddoedd lawer o brofiad ym maes archwilio, yn archwilio mewnol ac allanol. Cefnogir y Rheolwr Archwilio Mewnol gan Archwilydd Mewnol profiadol sy'n aelod o'r Sefydliad Siartredig Archwilwyr Mewnol.

Mae gan yr archwiliad mewnol hawliau digyfngiad i droi at yr holl ddogfennau, cofnodion a gwybodaeth, ac ni osodir unrhyw gyfyngiadau ar gwmpas y gwaith.

Yn ystod 2022, fel sydd wedi digwydd yn ystod blynyddoedd blaenorol, cynhaliwyd gwaith Archwilio Mewnol yn unol â

rhaglen waith a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Cwblhawyd ymarfer i ddiweddarau'r maes archwilio o ble y tynnir gweithgareddau archwilio er mwyn ei alluogi i gael cysylltiad mwy agos gyda Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Bydd y gwaith hwn yn cynorthwyo'r Pwyllgor i asesu lefel y sicrwydd archwilio mewnol a ddarparir ar draws gweithgareddau a meysydd risg diffiniedig.

Yn ystod pob cyfarfod pwyllgor a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, cafwyd adroddiadau a oedd yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau gwaith archwilio mewnol arferol a gwblhawyd ers y cyfarfod diwethaf, fel y dangosir yn y diagram gyferbyn. Mewn achosion lle y nodwyd gwendidau neu faterion eraill y mae angen rhoi sylw iddynt, cytunwyd ar

gynlluniau gweithredu gyda'r rheolwyr ac fe'u cyflwynwyd i'r Pwyllgor i'w cymeradwyo, ac ar ôl hyn, cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau rheolaidd am statws cynlluniau gweithredu archwilio mewnol cytunedig.

Gydag asesiad o'r amgylchedd rheoli, roedd gwaith archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn wedi cynnwys amrediad o adolygiadau thematig gweithredol ac ariannol yn unol â'r rhaglen waith a bennwyd gan y Pwyllgor, fel y nodir ei fanylion gyferbyn. Cadarnhaodd y Pwyllgor bod y rheolwyr wedi cymryd camau priodol i roi sylw i wendidau a nodwyd a daeth i'r casgliad bod fframwaith llywodraethu, rheoli risg a systemau rheoli mewnol y Gymdeithas yn ddigonol ac yn effeithiol.

Archwiliad Allanol

Yn dilyn ymarfer tendro yn 2020, penodwyd Beever and Struthers yn Archwilwyr Allanol ar gyfer y Grŵp. Mae'r Pwyllgor yn adolygu'r cynllun archwilio gan yr archwilydd allanol bob blwyddyn, gan ystyried ei gwmpas a'i

ddigonolrwydd. Mae'r Pwyllgor yn adolygu adroddiadau gan yr archwilydd allanol yn dilyn pob elfen arwyddocaol o waith archwilio ac mae'n cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn gyda'r archwilydd allanol heb

fod unrhyw gyfarwyddwyr gweithredol na rheolwyr yn bresennol. Mae'r Pwyllgor wedi asesu'r archwilydd allanol ac mae'n ystyried ei fod yn annibynnol.

Arall

Yn dilyn cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2021, diweddarwyd cylch gorchwyl y Pwyllgor er mwyn ehangu ei rôl i gynnwys yr is-gwmnïau ac er mwyn adlewyrchu ei rôl presennol yn well mewn perthynas â Llywodraethu a Sicrwydd.

Mae'r Pwyllgor yn cael adroddiadau rheolaidd gan y Rheolwr Llywodraethu am faterion perthnasol fel yr amlinellir yn y tabl. Cynhaliodd y Pwyllgor ddiwrnod cwrdd i ffwrdd ym mis Hydref.

Mae'r Pwyllgor yn paratoui adroddiad blynyddol i'r Bwrdd sy'n rhoi crynodeb o'i weithgareddau a'r farn archwilio fewnol.

Mai 2022

Adolygiad o adroddiadau archwilio mewnol thematig:

- Trosolwg llywodraethu
- Cofrestrau statudol
- Treuliau staff
- Aseidiadau o'r effaith ar breifatrwydd
- CCTV
- Y rhai sy'n ymadael

Diweddariad am y cynnydd wrth weithredu camau archwilio mewnol

Blaenraglen gwaith archwilio mewnol

Cyfarfod preifat gyda'r archwilydd allanol

Adolygiad o lythyr rheoli archwiliad Allanol y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2021

Cyfarfod preifat gyda'r archwilydd allanol

Adolygiad cyn y Bwrdd o ddatganiadau ariannol ac adroddiad blynyddol 2021

Adroddiad Adolygiad o risgiau Sector Llywodraeth Cymru

Adolygiad llywodraethu – adroddiad cynnydd

Diweddariad cynnydd Fframwaith Sicrwydd Bwrdd manwl

Cyflwyniad am y fframwaith rheoli casglu incwm gan y Rheolydd Ariannol (Adrodd)

Hydref 2022

Adolygiad o adroddiadau archwilio mewnol thematig:

- Rhagolygon ariannol
- Datblygu – cyn contract
- Enfys
- Cyflogres
- Cydymffurfiaeth Eiddo arall
- Rheoli presenoldeb staff
- Dysgu a Datblygu

Diweddariad am y cynnydd wrth weithredu camau gweithredu archwilio mewnol

Blaenraglen gwaith archwilio mewnol

Cymeradwyo cynllun archwilio allanol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022

Adolygiad llywodraethu – cytuno ar y cwmpas

Diweddariad am gynnydd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd

Cod Llywodraethu CCC 2021 – adolygiad cydymffurfiaeth blynyddol

Cyflwyniad am y fframwaith rheoli Gwariant gan y Rheolydd Ariannol (Trysorlys, Rhagweld a Phartner Busnes)

Ionawr 2023

Adolygiad o adroddiadau archwilio mewnol thematig:

- Diogelwch benthyciadau
- Gwaith cynnal a chadw adweithiol
- Cyfrifon rheoli
- Hunan-ardystio rheolaeth fewnol blynyddol

Diweddariad am y cynnydd wrth weithredu camau gweithredu archwilio mewnol

Blaenraglen gwaith archwilio mewnol

Adolygiad o lythyr rheoli archwilio allanol interim 2022

Adolygiad llywodraethu – diweddariad

Adroddiad blynyddol am gydymffurfiaeth gyda gofynion rheoliadol

Cyflwyniad am y fframwaith rheoli lechyd a Diogelwch gan y Cyfarwyddwr Diogelwch a Chydymffurfiaeth

Effeithiolrwydd rheolaeth fewnol

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod fframwaith llywodraethu, gweithgarwch rheoli risg a systemau rheolaeth fewnol y Gymdeithas yn ddigonol ac yn effeithiol. Mae'r Pwyllgor wedi adolygu ei waith ar gyfer 2022 ac mae'n barnu ei fod yn


cydymffurfio â'i gylch gorchwyl a darpariaethau perthnasol Cod Llywodraethu CCC.

Ni nododd yr archwiliad allanol unrhyw wendidau o bwys yn y systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol yn ystod eu harchwiliad.

Mae'r Pwyllgor yn teimlo bod gan y Gymdeithas system o reolaethau mewn grym sy'n briodol i'r amgylcheddau busnes amrywiol y mae'n gweithredu ynddynt, ac ni nodwyd unrhyw wendidau arwyddocaol yn y systemau hyn.

Pwyllgor Pensiynau

Cyfansoddiad



Mae'r Pwyllgor Pensiynau yn cynnwys hyd at wyth aelod, gan gynnwys o leiaf pum aelod Bwrdd.

Cynghorir y Pwyllgor gan actwari annibynnol a benodir gan y Gymdeithas, sy'n mynychu pob cyfarfod.

Gall y Bwrdd ddewis penodi aelodau annibynnol hefyd i'r pwyllgor, sy'n meddu ar brofiad o bensiynau, ond nid oes gofyn gwneud hyn ar hyn o bryd.

Mae'r Pwyllgor **yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn**, neu'n amlach na hynny, yn ôl y gofyn.

Aelodau Bwrdd



John McPeake

Cadeirydd

Presenoldeb



Christine Salter

Presenoldeb



Peter Harding

Presenoldeb



Ruth Eley

Presenoldeb



Kevin Taylor

Presenoldeb



Ian Anderson

Presenoldeb

Allwedd

Wedi mynychu

Heb fynychu, ond wedi anfon ymddiheuriadau

Cyfrifoldebau

Mae'r Pwyllgor Pensiynau yn is-bwyllgor o Fwrdd Grŵp WWH, a sefydlwyd er mwyn helpu'r Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau.

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am gynnig sicrwydd i'r Bwrdd trwy ddwyn gweithgarwch craffu a her annibynnol i unrhyw fater o fewn ei gylch gwaith, yn unol â'r hyn a bennir gan Fwrdd Grŵp WWH.

Mae gan y Pwyllgor drosolwg o Gynllun Pensiwn Grŵp Tai Wales & West (WWHGPP) ac unrhyw drefniadau pensiwn eraill, gyda'r nod o wneud argymhellion i'r Bwrdd ac i ymddiriedolwr annibynnol WWHGPP.

Mae'r Pwyllgor yn adolygu perfformiad buddsoddi adran â buddion wedi'u diffinio WWHGPP. Wrth wneud hyn, mae'n cael adroddiadau gan

Ymddiriedolwr y cynllun a chyngor gan gynghorydd actwaraidd annibynnol a benodir gan WWH. Gall y Pwyllgor gynnig newidiadau i Ymddiriedolwr WWHGPP.

Mae'r Pwyllgor yn adolygu prisiad tair blynedd adran buddion wedi'u diffinio WWHGPP. Wrth wneud hyn, mae'n cael cyngor gan gynghorydd actwaraidd

Mehefin 2022

- Cyflwyniad am y trosglwyddiad pensiwn
- Blaengynllun ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan gynnwys cyngor ynghylch pensiynau a phrasiad

Hydref 2022

- Diweddariad am y cynllun pensiwn
- Cyflwyniad am y prasiad tair blynedd cyntaf a gyhoeddir cyn bo hir

Ionawr 2023

- Cyflwyniad am ganlyniadau'r prasiad tair blynedd drafft a pherfformiad buddsoddi
- Diweddariad am achos llys TPT
- Diweddariad am berfformiad y cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio

Trosglwyddo pensiwn

Ar 31 Mawrth 2022, gadawodd y Grŵp y Cynllun Pensiwn Tai Cymdeithasol (SHPS) aml-gyflogwr, a throsglwyddo i gynllun pwrpasol newydd a weinyddir gan yr Ymddiriedolaeth Pensiynau (TPT), sy'n gweinyddu SHPS hefyd. Enw'r cynllun hwn yw Cynllun Pensiwn Grŵp Tai Wales & West (WWHGPP) ac mae'n cynnwys adran â buddion wedi'u diffinio sy'n agored i aelodau o staff yn y Gymdeithas ac adran â chyfraniadau wedi'u diffinio sy'n agored i'r holl aelodau staff yn y Grŵp.

Y gallu i redeg cynllun buddion wedi'u diffinio pwrpasol agored i gronni oedd y prif sbardun ar gyfer y newid, gan gynnig mwy o reolaeth dros strategaeth fuddsoddi, adfer diffyg, cyfraddau gwasanaeth yn y dyfodol a'r ffordd

y cynhelir prasiadau yn y dyfodol.

Er mwyn gadael y cynllun, gwnaeth y Grŵp daliad untro o £10m er mwyn lleihau'r diffyg, ac mae hyn, ynghyd â'r symudiad i fyny arwyddocaol a welwyd mewn cyfraddau gilt yn ystod 2022, wedi gweld y cynllun yn symud o fod mewn sefyllfa o ddiffyg i fod mewn sefyllfa o warged.

Mae'r sefyllfa ariannol well hon yn caniatáu i'r strategaeth fuddsoddi o fewn WWHGPP ganolbwyntio yn fwy ar dwf, gan wneud dyraniad uwch i asedau twf. Yn ei dro, mae hyn yn caniatáu i gyfraddau gwasanaeth yn y dyfodol barhau ar lefelau fforddiadwy ar gyfer staff a'r Grŵp.

annibynnol a benodwyd gan WWH ynghylch pa mor rhesymol yw'r tybiaethau a ddefnyddiwyd a chywirdeb y data a ddefnyddiwyd gan yr Ymddiriedolwr i baratoi'r prasiad. Gall y Pwyllgor gynnig newidiadau i'r prasiad i Ymddiriedolwr WWHGPP.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell rhaniad unrhyw newidiadau i gyfraniadau sy'n ofynnol i adran

buddion wedi'i diffinio WWHGPP i'r Bwrdd.

Mae'r Pwyllgor yn ystyried perfformiad cyffredinol Ymddiriedolwr WWHGPP a gall gynnig newid o ran Ymddiriedolwr i'r Bwrdd pan fo hynny'n briodol.

Mae'r Pwyllgor yn monitro perfformiad adran cyfraniadau wedi'u diffinio WWHGPP.

Crynodeb o brif symudiadau cyfrifyddu

Cynllun Pensiwn WWHGPP	£m
Diffyg pensiwn cyfrifyddu ar 31 Rhagfyr 2021	(13,343)
Cyfraniadau diffyg arferol	2,151
Cyfraniadau arferol i'r gwasanaeth yn y dyfodol	2,314
Cyfraniad untro	10,000
Treuliau a chost presennol y gwasanaeth	(2,022)
Newidiadau mewn tybiaethau (cyfradd gilt uwch yn bennaf)	11,504
Gwarged pensiwn cyfrifyddu ar 31 Rhagfyr 2022	10,604

Wrth wneud hyn, mae'n cael adroddiadau gan Ymddiriedolwr y cynllun a chynghor gan gynghorydd actwaraidd annibynnol a benodir gan WWH. Gall y Pwyllgor gynnig gwahanol ddarparwr pensiynau â chyfraniadau wedi'u diffinio i'r Bwrdd pan fo hynny'n briodol.

Datganiad o Gyfrifoldeb y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am baratoi'r adroddiad a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith a rheoliadau perthnasol. Mae Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 a deddfwriaeth tai cymdeithasol cofrestredig yn mynnu bod y Bwrdd yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, sy'n cynnig darlun cywir a theg o gyflwr y Grŵp a'r Gymdeithas ac o'r Incwm a'r Gwariant ar gyfer y cyfnod dan sylw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae gofyn i'r Bwrdd:

- Ddewis polisiâu cyfrifyddu addas ac yna, eu gweithredu mewn ffordd gyson,
- Ffurio barnau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodous,
- Nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, yn unol ag unrhyw amrywiadau o bwys a ddatgelir ac a esbonnir yn y datganiadau ariannol, a
- Pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Grŵp a'r Gymdeithas yn parhau i fod mewn busnes.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu gyda manylder rhesymol sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Gymdeithas ar unrhyw adeg, ac sy'n ei alluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio gyda Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, Rheoliadau Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol (Cyfrifon Grŵp) 1969, Deddf Tai ac Adfywio 2008



a'r Penderfyniad Cyffredinol (Cymru) ynghylch Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig 2015. Mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol dros gymryd camau rhesymol i ddiogelu asedau'r Grŵp a'r Gymdeithas ac atal a darganfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gynnal gwefan y Grŵp a'r Gymdeithas ac am ei huniondeb.


Gallai deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig ynghylch paratoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Datganiad Cydydffurfiaeth

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau y paratowyd yr Adroddiad Strategol hwn yn unol â'r egwyddorion a nodir yn SORP 2022 ar gyfer

Darparwyr Tai Cymdeithasol Cofrestredig.

Cymeradwywyd yr Adroddiad Strategol ar 30 Mawrth 2023 ac fe'i lofnodwyd ar ei ran gan:



Mr Alex Ashton
Cadeirydd y Bwrdd



Adroddiad yr Archwilydd i aelodau Cymdeithas

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Cymdeithas Tai Wales & West Cyfyngedig (y Gymdeithas) a'i his-gwmnïau (y Grŵp) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022, sy'n cynnwys y Datganiad Incwm Cynhwysfawr Cyfunol a Chymdeithas, Datganiad Newidiadau i Gronfeydd wrth Gefn Cyfunol a Chymdeithas, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol Gyfunol a Chymdeithas, y Datganiad Llif Arian Cyfunol a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o'r polisïau cyfrifyddu arwyddocaol yn nodyn 1. Y fframwaith adrodd ariannol a weithredwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig, gan gynnwys FRS 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon" (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn cynnig darlun cywir a theg o gyflwr y Grŵp a'r Gymdeithas ar 31 Rhagfyr 2022, ynghyd ag incwm a gwariant y Grŵp ac incwm a gwariant y Gymdeithas ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar yr adeg honno;

- wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig; ac
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, Rheoliadau Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol (Cyfrifon Grŵp) 1969, Deddf Tai ac Adfywio 2008 a Phenderfyniad Cyffredinol y Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2015.

Sail y farn

Cynhaliom ein harchwiliad yn unol â Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (DU) (ISAs (DU)) a chyfraith berthnasol. Rhoddir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dan y safonau hynny yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer adran archwilio datganiadau ariannol ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol o'r Grŵp a'r Gymdeithas yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Moesegol FRC, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r

gofynion hyn.

Credwn bod y dystiolaeth archwilio a sicrhawyd gennym yn ddigonol ac yn briodol er mwyn cynnig sail dros ein barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd y Bwrdd o'r sail gyfrifyddu fel busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith a gyflawnom, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd o bwys sy'n ymwneud gyda digwyddiadau neu amodau y gallent, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol dros allu y Gymdeithas neu'r Grŵp i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o o leiaf ddeuddeg mis o'r adeg pan awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r Bwrdd mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr

Tai Wales & West Cyfyngedig

Adroddiad Strategol, ac eithrio'r datganiadau ariannol a'n hadroddiad archwilydd gyda hynny. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Nid yw ein barn am y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac, eithrio i'r graddau y nodir hynny yn glir fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd gyda hynny.

Mewn perthynas â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall, a thrwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson mewn ffordd o bwys â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth a sicrhawyd yn yr archwiliad neu sy'n ymddangos fel arall ei bod wedi cael ei chamfynegi mewn ffordd o bwys. Os byddwn yn nodi anghysondebau o bwys neu gamfynegiannau o bwys amlwg, mae gofyn i ni bennu a oes camfynegi o bwys yn y datganiadau ariannol neu gamfynegi o bwys o'r wybodaeth arall. Os byddwn yn dod i'r casgliad, ar sail y gwaith a gyflawnom, bod camfynegi o bwys o ran y wybodaeth arall hon, mae gofyn i ni adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn am y materion a ragnodir dan Gylchlythyr Tai i Gymru HFW 02/10 "Rheolaethau mewnol ac adrodd"

Yn ein barn ni, mewn perthynas â datganiad y Bwrdd ynghylch rheolaeth ariannol fewnol:

Mae'r Bwrdd wedi darparu'r datgeliadau sy'n ofynnol gan y Cylchlythyr ac nid yw'r datganiad yn anghyson â'r wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni o'n gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol.

Materion y mae gofyn i ni adrodd amdanynt trwy eithriad

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol mewn perthynas â Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014 neu lle y mae Deddf Tai ac Adfywio 2008 yn mynnu ein bod yn adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- nad yw'r Gymdeithas wedi cynnal system rheolaeth foddhaol o'i thrafodion; neu

- nad yw'r Gymdeithas wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nad yw datganiadau ariannol y Gymdeithas yn cyd-fynd â llyfrau cyfrifon; neu
- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae gofyn i ni eu cael ar gyfer ein harchwiliad.

Cyfrifoldebau'r Bwrdd

Fel yr esbonnir yn fanylach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Bwrdd a nodir ar dudalen 44, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am deimlo'n fodlon eu bod yn cynnig darlun cywir a theg, ac am reolaeth fewnol o'r fath ag sy'n angenrheidiol yn ôl y Bwrdd er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag camfynegi o bwys, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am asesu gallu y Grŵp a'r Gymdeithas i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, pan fo hynny'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu

busnes gweithredol oni bai bod y Bwrdd yn bwriadu diddymu'r Gymdeithas neu derfynu gweithrediadau, neu nad oes ganddo unrhyw ddewis amgen realistig ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw sicrhau sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol cyfan yn rhydd rhag camfynegi o bwys, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) wastad yn darganfod camfynegi o bwys pan fo'n bodoli. Gall camfynegiannau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad a barnir eu bod o bwys os, yn unigol neu ar y cyd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Gellir gweld disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol sef www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilydd.

Y graddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu darganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll

Rydym yn nodi ac yn asesu risgiau camfynegi o bwys yn y datganiadau ariannol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, ac yna, byddwn yn cynllunio ac yn cyflawni gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, gan sicrhau tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol er mwyn cynnig sail ar gyfer ein barn.

Wrth nodi a rhoi sylw i risgiau camfynegi o bwys mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll a diffyg cydymffurfiaeth gyda chyfreithiau a rheoliadau, roedd ein gweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Sicrhaom ddealltwriaeth o gyfreithiau a rheoliadau sy'n effeithio ar y Grŵp a'r Gymdeithas, gan ganolbwyntio ar y rhai hynny yr oeddent yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu yr oeddent yn cael effaith sylfaenol ar ei gweithrediadau. Roedd cyfreithiau a rheoliadau allweddol a nodom yn cynnwys y

Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol, y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer darparwyr tai cofrestredig: SORP Tai 2022, Deddf Tai ac Adfywio 2008, Penderfyniad Cyffredinol Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2015, deddfwriaeth treth, deddfwriaeth iechyd a diogelwch, a deddfwriaeth cyflogaeth.

- Gwnaethom ymholiadau gyda'r Bwrdd, gan adolygu gohebiaeth a chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd am dystiolaeth o ddiffyg cydymffurfiaeth gyda chyfreithiau a rheoliadau perthnasol. Yn ogystal, adolygom reolaethau sydd gan y Bwrdd mewn grym, yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.
- Datblygom ddealltwriaeth o'r rheolaethau sydd gan y Bwrdd mewn grym er mwyn atal a darganfod twyll.
- Gwnaethom ymholiadau gyda'r Bwrdd am unrhyw achosion o dwyll a oedd wedi digwydd yn ystod y cyfnod cyfrifyddu.
- Trafodwyd risg twyll a diffyg cydymffurfiaeth gyda chyfreithiau a rheoliadau

a thwyll o fewn y tîm archwilio a chynlluniwyd a chyflawnwyd profion er mwyn rhoi sylw i'r risgiau hyn. Nodom y potensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cyfreithiau sy'n ymwneud gydag adeiladu a darparu tai cymdeithasol, adnabod natur gweithgareddau'r Grŵp a natur reoliadol gweithgareddau'r Grŵp.

- Adolygom ddatgeliadau datganiadau ariannol a'u profi ar sail dogfennaeth atodol er mwyn asesu cydymffurfiaeth gyda rheoliadau a chyfreithiau perthnasol a drafodwyd uchod.
- Gwnaethom ymholiadau gyda'r Bwrdd am hawliadau ac ymglyfreitha gwirioneddol' a phosibl.
- Cyflawnom weithdrefnau dadansoddi er mwyn nodi unrhyw berthnasoddedd anarferol neu annisgwyl a allai ddynodi risgiau camfynegi o bwys o ganlyniad i dwyll.
- Wrth roi sylw i risg twyll wrth i reolwyr wrth-wneud rheolaethau mewnol, profom briodoldeb cofnodion cyfnodolyn ac asesu a oedd y barnau a wnaethpwyd wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn dynodi tuedd bosibl.

O ganlyniad i gyfyngiadau hanfodol archwiliad, ceir risg na ellir ei hosgoi na fyddwn wedi canfod rhai camfynegiannau o bwys yn y datganiadau ariannol, er ein bod wedi cynllunio'n gywir a chyflawni ein harchwiliad yn unol â safonau cyfrifyddu. Er enghraifft, yn yr un modd ag unrhyw archwiliad, roedd risg uwch o hyd o fethu darganfod afreoleiddra, oherwydd y gallai'r rhain gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, camfynegiannau neu wrth-wneud rheolaethau mewnol. Nid ydym yn gyfrifol am atal twyll neu ddiffyg cydymffurfio gyda chyfreithiau a rheoliadau ac ni ellir disgwyl i ni ddarganfod yr holl dwyll a diffyg cydymffurfiaeth gyda chyfreithiau a rheoliadau.

Defnydd o'n hadroddiad

Caiff yr adroddiad hwn ei baratoi ar gyfer aelodau'r Gymdeithas yn unig, yn unol ag adran 87 Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac Adran 128 Deddf Tai ac Adfywio 2008. Cyflawnwyd ein gwaith archwilio fel y gallwn ddatgan i'r Gymdeithas y materion hynny y mae gofyn i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd, a heb fod am unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw

un ac eithrio'r Gymdeithas dros ein gwaith archwilio, dros yr adroddiad hwn, neu dros y safbwyntiau a ffurfiwyd gennym.

Beever and Struthers

Beever and Struthers,
Archwilydd Statudol
The Colmore Building
20 Colmore Circus Queensway
Birmingham
B4 6AT

Dyddiad: 26 Ebrill 2023

Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022

Nodiadau		Gweithrediadau parhaus £'000	Gweithrediadau wedi'u terfynu £'000	2022 Cyfanswm £'000	GRŴP	Y GYMDEITHAS	
					2021 £'000	2022 £'000	2021 £'000
Trosiant	2	74,080	5,394	79,474	73,560	77,051	71,704
Costau gweithredu	2	(58,422)	(5,393)	(63,815)	(58,106)	(61,482)	(56,318)
Gwarged gwerthu asedau sefydlog	5	17,401	-	17,401	1,221	17,401	1,221
Diffyg ar werthu asedau sefydlog eraill	4	(495)	-	(495)	-	(499)	-
Gwarged gweithredol	4	32,564	1	32,565	16,675	32,471	16,607
Llog sydd i'w dderbyn	6	821	-	821	70	955	184
Llog taladwy	7	(9,812)	-	(9,812)	(8,828)	(9,812)	(8,828)
Costau cyllido – y diffyg yn y gronfa bensiw	30	37	-	37	74	37	74
Symudiadau ar ran gwerth teg buddsoddiadau	14	(745)	-	(745)	(143)	(745)	(143)
Dileu benthyciad rhyng-gwmni	9	(218)	-	(218)	-	(218)	-
Gwarged cyn treth		22,647	1	22,648	7,848	22,688	7,894
Trethiant	8	(19)	-	(19)	(32)	(20)	(31)
Gwarged ar gyfer y flwyddyn		22,628	1	22,629	7,816	22,668	7,863
Incwm cynhwysfawr arall							
Elw actiwaraid mewn perthynas â'r cynllun pensiw â buddion wedi'u diffinio	29,30	11,504	-	11,504	1,151	11,504	1,151
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		34,132	1	34,133	8,967	34,172	9,014

Datganiad Cyfunol o Newidiadau mewn Arian wrth Gefn

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022

	2022 Cyfanswm cronfeydd wrth gefn £'000	GRŴP	Y GYMDEITHAS	
		2021 Cyfanswm cronfeydd wrth gefn £'000	2022 Cyfanswm cronfeydd wrth gefn £'000	2021 Cyfanswm cronfeydd wrth gefn £'000
Ar 1 Ionawr	98,064	89,097	98,276	89,262
Gwarged o'r datganiad incwm cynhwysfawr	34,133	8,967	34,172	9,014
Ar 31 Rhagfyr	132,197	98,064	132,448	98,276


Mae cyfanswm y cronfeydd wrth gefn yn cynnwys y gronfa incwm gynhwysfawr wrth gefn ar gyfer y Gymdeithas a'r Grŵp yn unig.


Datganiad Cyfunol o'r Sefyllfa Ariannol


am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022

	Nodiadau	GRŴP		Y GYMDEITHAS	
		2022 £'000	2021 £'000	2022 £'000	2021 £'000
Asedau diriaethol sefydlog					
Adeiladau a thir ar gyfer tai – cost gros	11	882,316	850,574	879,185	848,638
– dibrisiant	11	(143,235)	(141,004)	(143,235)	(141,004)
		739,081	709,570	735,950	707,634
Asedau diriaethol sefydlog eraill	12	19,179	17,968	19,094	17,875
Buddsoddiadau asedau sefydlog					
Benthyciadau Cymorth Prynu a PCCI sy'n dderbyniadwy	13	12,283	12,286	12,283	12,286
Buddsoddiadau eraill	14	8,778	7,716	8,778	7,716
		779,321	747,540	776,105	745,511
Cyfanswm asedau sefydlog					
Asedau cyfredol					
Stoc	15	2,131	1,886	2,131	1,549
Dyledwyr masnachol a chyffredinol: symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn	16	7,061	5,951	10,034	9,146
Dyledwyr masnachol a chyffredinol: symiau sy'n dod yn ddyledus ar ol mwy na blwyddyn	17	26,281	27,082	26,281	27,207
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	18	81,278	71,384	78,833	66,606
		116,751	106,303	117,279	104,508
Rhwymedigaethau cyfredol					
Credydwyr: symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn	20	(27,159)	(23,193)	(24,231)	(19,169)
Grantiau tai cymdeithasol a grantiau eraill y llywodraeth: symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn y flwyddyn	22	(3,160)	(2,987)	(3,160)	(2,987)
		86,432	80,123	89,888	82,352
Asedau cyfredol net					
Cyfanswm yr asedau ar ol tynnu'r rhwymedigaethau cyfredol					
		865,753	827,663	865,993	827,863
Rhwymedigaethau anghyfredol					
Credydwyr: symiau a ddaw'n ddyledus ar ol mwy na blwyddyn	21	(385,667)	(361,398)	(385,667)	(361,398)
Grantiau tai cymdeithasol a grantiau eraill y llywodraeth: symiau sy'n ddyledus ar ol mwy na blwyddyn	22	(358,376)	(354,741)	(358,376)	(354,741)
Ased/(rhwymedigaeth) pensiwn â buddion wedi diffinio	29	10,604	(13,343)	10,604	(13,343)
Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau	25	(117)	(117)	(106)	(105)
		132,197	98,064	132,448	98,276
Cyfalaf a chronfeydd wrth gefn					
Cyfalaf cyfrannau a alwyd	26	-	-	-	-
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn		132,197	98,064	132,448	98,276
		132,197	98,064	132,448	98,276

Cafodd y datganiadau ariannol ar dudalennau 50 i 86 eu cymeradwyo gan y Bwrdd ar 30 Mawrth 2023 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:


Cadeirydd y Bwrdd –
Mr A Ashton


Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd –
Mr J McPeake


Ysgrifennydd –
Mr S Epps

Datganiad cyfunol o lif arian

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022

	GRŴP		Y GYMDEITHAS	
	2022 £'000	2021 £'000	2022 £'000	2021 £'000
Gwarged Gweithredol	32,565	16,675	32,471	16,607
Addasiadau ar gyfer eitemau anariannol:				
Dibrisiad asedau sefydlog diriaethol	13,746	12,609	13,729	12,594
Grantiau'r llywodraeth a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(3,404)	(3,199)	(3,404)	(3,199)
Gwarged gwerthu asedau sefydlog	(17,401)	(1,221)	(17,401)	(1,221)
Diffyg ar werthu asedau sefydlog eraill	495	-	499	-
Symudiadau mewn cyfalaf gwaith:				
(Cynnydd)/gostyngiad mewn stoc	(338)	1,523	(582)	241
(Cynnydd)/gostyngiad mewn masnach a dyledwyr eraill	(661)	(376)	(660)	(244)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn masnach a chredydwyr eraill	891	(703)	815	193
Cyfraniadau arian parod at y diffyg yn y pensiwn a dalwyd	(2,151)	(1,751)	(2,151)	(1,751)
Elw ar werthu asedau sefydlog eraill	338	1	329	-
Mewnlif arian net a gynhyrchwyd drwy weithgareddau gweithredol	24,080	23,558	23,645	23,220
Llog a dderbyniwyd	263	166	377	163
Llog a ffioedd morgais a dalwyd	(10,877)	(10,008)	(10,877)	(9,894)
Gwahaniaeth rhwng costau pensiwn y codwyd amdanynt mewn gwarged gweithredol a llif arian pensiwn	(376)	830	(376)	830
Treth a dalwyd	(20)	(13)	(20)	(13)
Prynu asedau sefydlog amnewid eraill	(3,364)	(3,001)	(3,364)	(3,001)
Addasiadau ar gyfer ail-fuddsoddi mewn eiddo cyfredol:				
Cydrannau newydd	(7,076)	(4,408)	(7,076)	(4,408)
Arian parod rhydd a gynhyrchwyd cyn ac ar ôl ad-dalu benthyciadau	2,630	7,124	2,309	6,897
Llif arian o weithgareddau buddsoddi				
Prynu a datblygu eiddo	(43,648)	(38,456)	(41,047)	(37,837)
Cyfraniad pensiwn untro	(10,000)	-	(10,000)	-
Elw yn sgil gwerthu eiddo PCCI (nodyn 5)	1,115	1,669	1,115	1,669
Elw o werthu tir ac eiddo tai eraill (nodyn 5)	22,771	2,995	22,771	2,995
Gostyngiad/(cynnydd) mewn symiau a fuddsoddiwyd mewn is-fentrau	86	1,498	86	1,498
Grantiau a dderbyniwyd	15,209	17,903	15,209	17,903
Llif arian o withgareddau cyllido				
Benthyciadau newydd wedi eu sicrhau o gyfleusterau credyd cylchdro	17,079	56,121	17,079	56,121
Tir ar gyfer benthyciadau tai a dderbyniwyd/(a ad-dalwyd)	4,705	-	4,705	-
Cynnydd mewn arian a'r hyn sy'n cyfateb ag arian parod gan weithrediadau sy'n parhau	9,947	48,854	12,227	49,246
Llif arian gan weithrediadau sydd wedi dirwyn i ben	(53)	-	-	-
Cynnydd net mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod	9,894	48,854	12,227	49,246
Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn	71,384	22,530	66,606	17,360
Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar derfyn y flwyddyn	81,278	71,384	78,833	66,606

1 Prif bolisiau cyfrifyddu

Sail paratoi

Ymgorfforwyd y Gymdeithas dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 (rhif cofrestru: 21114R) ac mae'n landlord cymdeithasol cofrestredig (Rhif cofrestru Llywodraeth Cymru : L032). Mae'r Gymdeithas yn endid budd cyhoeddus a mabwysiadodd reolau elusennol y daethant i rym o 20 Ionawr 2005.

Caiff is-gwmnïau ym mherchnogaeth lwyr y Gymdeithas eu hymgorffori fel cwmnïau atebolrwydd cyfyngedig dan Ddeddf Cwmnïau 2006. Rhestrir y rhain isod dan "sail cyfuno" ac yn nodyn 31.

Sail cyfuno

Mae'r cyfrifon cyfunol yn cynnwys canlyniadau Wales & West Housing Association Limited (y "Gymdeithas") a'i hymgymeriadau is-gwmni masnachu: Cambria Maintenance Services Limited ("Cambria"), Enfys Developments Limited ("Enfys"), Castell Homes Limited ("Cartrefi Castell") a Castell Ventures Limited ("Mentrau Castell"). Fel y nodwyd yn Nodyn 9, gwaredwyd Mentrau Castell, felly nid oes gan y Gymdeithas unrhyw fudd yn yr endid hwn mwyach, fodd bynnag, fe'i gwaredwyd ar ôl diwedd y cyfnod, felly caiff canlyniadau Mentrau Castell eu cynnwys yn natganiadau 2022 y Grŵp. Mae cyfrifon cyfunol yn ofynnol dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014. Wales & West Housing Association Limited yw'r endid rhiant a'r endid rhiant sylfaenol.

Sail cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â safonau adrodd ariannol perthnasol yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer "Cyfrifyddu gan Ddarparwyr Tai Cymdeithasol Cofrestredig" fel y'i diweddarwyd yn 2022 ("SORP 2022"). Pan fo unrhyw wrthdaro yn codi rhwng SORP 2022 a safonau adrodd ariannol perthnasol, bydd SORP yn drech na'r rhain. Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol wedi'u Cofrestru yng Nghymru – Penderfyniad Cyffredinol 2015.

Caiff y datganiadau ariannol eu paratoi ar sail cyfrifyddu cost hanesyddol.

Barnau cyfrifyddu hollbwysig a ffynonellau ansicrwydd allweddol wrth amcangyfrif

Mae paratoi'r datganiadau ariannol yn golygu bod gofyn i'r rheolwyr ffurfio barnau, amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio y symiau a adroddir ar gyfer asedau a rhwymedigaethau ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol a'r symiau a adroddir ar gyfer refeniw a threuliau yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mae natur amcangyfrif yn golygu y gallai'r wir ganlyniadau fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny. Mae'r barnau canlynol (ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud ag amcangyfrifon) wedi cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar symiau sy'n cael eu cydnabod yn y datganiadau ariannol.

a. Gwariant datblygu. Mae'r Grŵp yn cyfalafu gwariant datblygu. Bydd gweithgarwch cychwynnol i gyfalafu costau yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd i'r cam o brynu unrhyw dir neu gymeradwyo cynllun sy'n cynnwys cyllid perthnasol. Wrth bennu a yw prosiect yn debygol o orffen, bydd y rheolwyr yn monitro'r datblygiad, gan farnu a oes unrhyw newidiadau wedi digwydd a fydd yn arwain at amhariad.

1 Prif bolisiau cyfrifyddu (parhad)

b. Amhariad. Mae'r Grŵp yn ystyried a oes dangosyddion amhariad yn bodoli mewn perthynas â'i eiddo tai. Mae dangosyddion yn cynnwys llai o alw am eiddo neu ostyngiad yng ngwerth tir neu fuddsoddiad. Caiff unedau eiddo eu grwpio mewn unedau cynhyrchu arian (CGUs), y mae pob un ohonynt yn gynllun fel arfer. Yn ei hanfod, diben y prawf yw cadarnhau nad yw gwerth llyfr cyfanredol y grŵp o unedau eiddo ym mhob CGU yn werth mwy na gwerth yr unedau hynny i'r busnes. Gwerth yr eiddo busnes sy'n cael eu dal fel asedau sefydlog yw'r Prisiau Defnydd Presennol (EUV) fel arfer, sef un o'r sylfeini a ddefnyddir gan briswyr eiddo proffesiynol allanol. Yn ogystal, mae'r Gymdeithas yn ystyried perfformiad disgwylidig yr ased yn y dyfodol. Codir unrhyw golled oherwydd amhariad ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr.

c. Buddion pensiwn. Pennir gwerth cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio gan ddefnyddio prisiadau actiwaraid. Mae'r prisiad actiwaraid yn golygu ffurfio tybiaethau ynghylch cyfraddau gostyngiad, twf mewn enillion, chwyddiant prisiau a chodiadau pensiwn yn y dyfodol. Oherwydd cymhlethdod y prisiad, y tybiaethau sylfaenol a natur hirdymor y cynlluniau hyn, mae amcangyfrifon o'r fath yn destun ansicrwydd sylweddol.

Gwnaeth y Gymdeithas drosglwyddiad swmp o SHPS i Gynllun Pensiwn Grŵp Tai Wales & West ar 1 Ebrill 2022. Gweinyddir y cynllun gan yr Ymddiriedolaeth Pensiynau ac nid oes unrhyw rai o'r strwythurau budd wedi newid.

Mae'r Grŵp yn gwneud taliadau i gynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio ac â chyfraniadau wedi'u diffinio ar ran ei gyflogeion. Ariannir y cynlluniau gan gyfraniadau gan y cyflogeion yn rhannol, a chan y Grŵp yn rhannol, ar gyfraddau a bennir gan actiwarïaid annibynnol. Buddsoddir asedau'r cynlluniau â buddion wedi'u diffinio ar wahân i asedau'r Grŵp. Cyfrifwyd y gost pensiynau ar gyfer Cynllun Twf Datrysiadau Ymdeol TPT fel pe baent wedi codi mewn cynlluniau â chyfraniadau wedi'u diffinio, fel y caniateir gan Safon Adrodd Ariannol 17 (Buddion Ymdeol), gan nad oes modd nodi asedau'r cynllun sy'n briodoladwy i'r Grŵp ar wahân mewn ffordd gyson a rhesymol.

Ystyrir y cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio dan FRS102 er mwyn dangos cyfran y Grŵp o rwymedigaeth net y gronfa pensiwn ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Dangosir cyfraniadau cyflogwyr ar gyfer rhwymedigaeth gwasanaeth yn y dyfodol yn y datganiad o incwm cynhwysfawr, ynghyd â'r holl gyfraniadau cyflogwr eraill i'r cynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio. Rhoddir manylion pellach yn nodyn 29 a 30.

d. Asedau diriaethol sefydlog. Ac eithrio eiddo buddsoddi, caiff asedau diriaethol sefydlog eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol, gan ystyried gwerthoedd gweddilliol pan fo hynny'n briodol. Asesir y gwerthoedd gweddilliol a'r oesau go iawn bob blwyddyn, a gallent amrywio, gan ddibynnu ar nifer o ffactorau. Wrth ail-asesu oes asedau, ystyrir ffactorau megis arloesi technolegol, cylchoedd oes cynnyrch a rhaglenni cynnal a chadw. Mae asesiadau gwerth gweddilliol yn ystyried materion megis cyflwr farchnad y dyfydol, yr oes sydd ar ôl gan yr ased a gwerthoedd gwaredu rhagamcanol.

e. Busnes gweithredol. Paratowyd datganiadau ariannol y Grŵp ar sail busnes gweithredol, sy'n tybio gallu i barhau i weithredu hyd y gellir rhagweld. Ni nodwyd unrhyw bryderon arwyddocaol yn y cynllun busnes a ddiweddarwyd yn fwyaf diweddar. Mae'r Cyfarwyddwyr wedi profi eu dadansoddiad lliw arian er mwyn ystyried effaith sefyllfaoedd posibl ar eu busnes, o ganlyniad i'r amgylchedd economaidd cyfredol. Ar sail yr asesiadau hyn, o ystyried y mesurau y byddai modd eu cymryd i liniaru'r amodau economaidd cyfredol, a'r adnoddau cyfredol sydd ar gael, mae'r Cyfarwyddwyr wedi dod i'r casgliad y gallant barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r cyfrifon a'r adroddiad blynyddol.

1 Prif bolisiau cyfrifyddu (parhad)

Eiddo tai – cyfalafu a dibrisiant asedau sefydlog (nodyn 11)

Nodir eiddo tai yn l eu cost yn llai dibrisiant cronedig. Cost eiddo yw eu pris prynu ynghyd â chostau caffael cysylltiedig a chostau uniongyrchol y broses ddatblygu. Pan fydd y Gymdeithas yn cymryd perchnogaeth o eiddo dan gytundebau adran 106, prynir y rhain yn aml am lai na'r gost. Mewn achosion o'r fath, cydnabyddir eiddo o'r fath yn ôl eu gwir gost, a'r gost briodol yw'r gwahaniaeth rhwng hyn a'r swm a dalwyd ac a ddangosir o fewn caffael eiddo, a dangosir yr atebolrwydd cyfatebol fel grant priodol.

Caiff "eiddo tai sy'n cael eu hadeiladu" eu datgan yn ôl y gost a'u trosglwyddo i "eiddo tai cymdeithasol" ar ôl eu cwblhau. Caiff unrhyw gostau gorbenion y gellir eu priodoli yn uniongyrchol i ddod a sedau sefydlog i gyflwr gweithio ar eu diben bwriadedig, eu cyfalafu. Caiff gwariant ar brynu tir ac adeiladau yn y lle cyntaf ei gyfalafu a'i ddatgelu fel rhan o eiddo tai wrth iddynt gael eu hadeiladu.

Codir dibrisiant ar gost hanesyddol cydrannau eiddo. Caiff grant ei neilltuo i dir a phrif strwythur yr eiddo, ond nid i gydrannau eraill. Ni chaiff tir rhydd-ddaliadol ei ddibrisio. Caiff tir lesddaliadol ei ddibrisio dros dymor y prydles sydd ar l. Caiff y swm dibrisiadwy ei ddileu dros yr oes ddefnyddiol amcangyfrifedig o'r dyddiad prynu neu drosglwyddo ar l adeiladu. Ni ddibrisir eiddo tai sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd.

Cydnabyddir elw neu golledion ar warediadau eiddo ar y dyddiad pan fydd gwerthiant yn sicr. Yr elw neu'r golled sy'n codi ar waredu eiddo yw'r gwahaniaeth rhwng y pris gwerthu a chyfanswm y gost ddibrisio, ac unrhyw gostau gwaredu cysylltiedig megis ffioedd cyfreithiol a phrisio. Bydd gofyn ad-dalu'r grant a gafwyd yn wreiddiol ar gyfer eiddo yn llawn mewn achos gwaredu, dymchwel neu newid defnydd i weithgarwch anghymwys, ac eithrio mewn amgylchiadau lle y mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod hynny'n briodol, gall leihau'r swm i'w ad-dalu. Pan fydd hyn yn codi ar warediad, ychwanegir y grant i'w ad-dalu a ildwyd i'r elw neu'r golled ar y gwarediad hwnnw.

Gwerthwyd rhai eiddo yn rhannol dan drefniadau rhanberchnogaeth. Mae gan ddeiliaid ddefnydd llawn o'r eiddo dan sylw ac maent yn talu rhent sy'n adlewyrchu'r budd cyfrannol y mae'r Gymdeithas yn ei gadw. Yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, dangosir budd y Gymdeithas fel cyfran o'r gost hanesyddol wreiddiol, sy'n cyfateb â'r budd a gedwir. Gall deiliaid brynu rhywfaint o'r budd hwnnw a gedwir, neu'r holl fudd a gedwir, am gyfran gyfatebol o'r gwerth ar y farchnad bresennol pan fydd y pryniant hwnnw yn codi.

Pan fydd eiddo tai yn cynnwys dwy gydran fawr neu fwy y mae ganddynt wahanol oes economaidd ddefnyddiol, ystyrir pob cydran ar wahân a'u dibrisio dros eu hoes economaidd ddefnyddiol unigol. Caiff gwariant sy'n ymwneud â gweithgarwch dilynol i ddisodli neu adnewyddu cydrannau ei gyfalafu wrth iddo godi.

Codir dibrisiant yn ôl y gost ar sail llinell syth dros fywyd defnyddiol economaidd disgwylidig y gydran fel a ganlyn:

Prif strwythur	Blwyddyn		Blwyddyn
Tai	150	Fflatiau	100
Cydrannau eraill	Blwyddyn	Cydrannau eraill	Blwyddyn
Drysau cefn	40	Ceginau: anghenion cyffredinol	17
Ystafelloedd ymolchi	30	Ceginau: tai ymddeol	20
Systemau gwresogi	15	Toeon	80
Offer trydanol	60	Ffenestri: gosodwyd cyn 2000	20
Drysau ffrynt	30	Ffenestri: gosodwyd ar ôl 2000	40

1 Prif bolisiau cyfrifyddu (parhad)

Caiff cydrannau ar dir lesddaliadol eu dibrisio dros gyfnod byrrach yr uchod a chyfnod y les sy'n weddill. Lle y derbynnir grant yn erbyn cost cydran, gostyngir cost y gydran yn unol â gwerth presennol net grant y dyfodol, a dangosir y ffigwr gwerth presennol net fel dyledwr yn y cyfrifon.

Asedau sefydlog eraill (nodyn 12)

Nodir asedau sefydlog diriaethol eraill yn ôl eu cost yn llai dibrisiant cronodig. Codir dibrisiant ar sail llinell syth er mwyn dileu'r gost yn llai gwerth gweddilliol amcangyfrifedig asedau dros eu hoes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

Dosbarth yr ased	Blwyddyn	Dosbarth yr ased	Blwyddyn
Cerbydau modur	2 i 4	Offer safle – systemau	10 i 25
Offer swyddfa – paneli PV solar	25	mynediad drws	
Offer swyddfa – arall	3 i 10	Offer safle – arall	3 i 10
Offer safle – lifftiau	10 i 25	Adeiladau masnachol ac eraill	Hyd at 60

Caiff asedau sy'n ymwneud â meddalwedd eu datgan yn ôl eu cost yn llai amorteiddiad cronodig. Mae'r gost yn cynnwys pris prynu meddalwedd, ynghyd â chost uniongyrchol amser unigolion a dreuliwyd yn datblygu ac yn integreiddio'r feddalwedd.

Dadansoddir amser Staff TGCh wrth bod prosiectau yn parhau er mwyn sicrhau cywirdeb a chyflawnder o ran yr amser a gaiff ei gyfalafu. Caiff yr un oes economaidd ddefnyddiol ei neilltuo i amser wedi'i gyfalafu ag y caiff ei neilltuo i'r feddalwedd sylfaenol.

Os nodir unrhyw ddangosyddion amhariad, asesir amhariad ar sail cost gros pob eitem o feddalwedd, gan gynnwys costau staff sy'n codi wrth ddatblygu ac integreiddio.

Llog wedi'i gyfalafu

Caiff llog ar fenthyciadau sy'n ariannu datblygiadau ei gyfalafu tan ddyddiad cwblhau'r cynllun.

Offerynnau ariannol

Mae cyfrifo gwerth teg offerynnau ariannol ar bob dyddiad adrodd yn seiliedig ar ddyfynbrisiau marchnad gweithredol os ydynt ar gael, pan na fyddant ar gael, defnyddir techneg brisio er mwyn gwneud y defnydd mwyaf o fewnbynau a thrafodion marchnad, gan ddefnyddio dadansoddiad llif arian gostyngol.

Benthyciadau a bondiau (nodiadau 20 a 21)

Caiff ffioedd trefnu benthyciadau eu cyfalafu ac yna, eu hamorteiddio ar sail llinell syth dros hyd y benthyciad. Caiff llog ei gydnabod yn y datganiad incwm cynhwysfawr ar sail cronadau, gan gynnwys yr hyn sy'n gysylltiedig â benthyciadau cyswllt â mynegai lle y gallai'r setliad ariannol gael ei ohirio.

Pan geir gwahaniaeth rhwng cyfradd cwpon bondiau a gyhoeddir i fuddsoddwyr a chyfradd effeithiol cyhoeddiadau o'r fath, caiff y balans hwn ei ddal fel premiwm marchnad bond neu ostyngiad ar y fantolen a'i wasgaru dros gyfnod y bondiau cyfatebol.

1 Prif bolisiau cyfrifyddu (parhad)

Grantiau (nodyn 22)

Dangosir grantiau a geir gan asiantaethau llywodraeth ganolog ac awdurdodau lleol o fewn credydwyr yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol. Caiff grantiau sy'n ymwneud ag asedau eu cydnabod o fewn incwm ar sail llinell syth dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased. Caiff grantiau'r llywodraeth a geir ar gyfer eiddo tai eu cydnabod o fewn incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig strwythur yr eiddo tai.

Pan geir grantiau ymlaen llaw, cânt eu cario ymlaen fel rhwymedigaethau cyfredol i'w cyfateb yn erbyn gwariant cyfalaf yn y dyfodol wrth iddo ddigwydd. Caiff grantiau a geir mewn perthynas â chynlluniau wedi'u cwblhau neu'r rhai sy'n cael eu hadeiladu, eu cynnwys o fewn dyledwyr yn y datganiadau ariannol.

Mae grantiau yn ad-daladwy dan amgylchiadau penodol, ar l gwerthu eiddo yn bennaf. Caiff grantiau ad-daladwy o'r fath eu cynnwys o fewn credydwyr yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol.

Treth ar werth (TAW)

Mae'r Gymdeithas a Cambria yn creu un grŵp TAW sydd wedi'i eithrio'n rhannol at ddibenion TAW. Roedd Mentrau Castell yn aelod o'r Grŵp hwn nes iddo gael ei waredu ar 31 Ionawr 2023. Gwneir hawliadau am ad-dalu TAW ar eitemau sy'n rhai penodol a ganiateir. Mae'r gwariant a ddangosir yn cynnwys TAW na ellir ei adennill.

Mae Enfys a Cartrefi Castell wedi'u cofrestru ar wahân ar ddibenion TAW. Gan bod yr endidau hyn yn gallu adennill TAW, os bydd yn codi, dangosir y gwariant heb TAW.

Cyfrifyddu les

Lle y mae risgiau a gwobrwyon perchnogaeth mewn perthynas â lesodded unigol yn dynodi y dylid ei ystyried fel les ariannol neu les weithredol.

Dadansoddiad o'r Incwm Tai Cymdeithasol a chostau cysylltiedig

Darparir dadansoddiad manwl o'r trosiant tai cymdeithasol a'r costau gweithredol cysylltiedig yn nodyn 2(b). Mae rheoli gweithrediadau yn cynrychioli costau system "Rhedeg y Busnes" er mwyn rhedeg gweithrediadau craidd y sefydliad. Mae gwasanaethau rheoli tenantiaeth yn cynrychioli costau system "Gosod cartrefi" y Gymdeithas er mwyn gweinyddu gosodiadau, system "Talu fy rhent" er mwyn casglu derbyniadau rhent a system "YG" er mwyn delio gyda phroblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Systemau allweddol eraill y Gymdeithas yw "Trwsio fy nghartref" a "Chydymffurfiaeth eiddo" er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw ar eiddo a'u cadw yn ddiogel, y rhennir y costau rhwng gwaith cynnal a chadw arferol, gwariant ar waith trwsio mawr a rheoli gweithgarwch disodli cydrannau yn y dadansoddiad manwl. Mae datblygu a chostau eraill yn cynnwys gorbenion datblygu na ellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddwyn asedau sefydlog i'w cyflwr gwaith at eu diben bwriadedig, yn ogystal â chost rhedeg systemau "Iechyd a diogelwch" a "Systemau gwybodaeth a diogelwch data". Caiff gorbenion canolog eu neilltuo ar sail defnyddio personl allweddol ym mhob ardal.

2 Dadansoddiad o drosiant a chostau

Mae'r trosiant yn cynrychioli incwm rhent a thâl gwasanaeth (heb gynnwys eiddo gwag), Rhodd Cymorth, ffioedd na grantiau ar sail refferiw a gafwyd. Daw'r holl drosiant o weithrediadau yn y Deyrnas Unedig.

(a) Manylion trosiant, costau gweithredu a gwarged gweithredu

	GRŴP			GRŴP		
	Trosiant	Costau	Gwarged	Trosiant	Costau	Gwarged
	2022	2022	2022	2021	2021	2021
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gosodiadau tai cymdeithasol (nodyn 2b)	72,883	(57,231)	15,652	67,917	(52,333)	15,584
Gweithgareddau tai cymdeithasol eraill						
Gwarged gwerthu asedau sefydlog	-	-	17,401	-	-	1,221
Colled ar werthu asedau sefydlog eraill	-	-	(495)	-	-	-
Gweithgareddau y tu allan i faes y tai cymdeithasol						
Gosod eiddo	48	(53)	(5)	52	(52)	-
Arall	2,584	(2,536)	48	2,228	(2,361)	(133)
Gofal a chymorth	3,959	(3,995)	(36)	3,363	(3,360)	3
Cyfanswm	79,474	(63,815)	32,565	73,560	(58,106)	16,675

	Y GYMDEITHAS			Y GYMDEITHAS		
	Trosiant	Costau	Gwarged	Trosiant	Costau	Gwarged
	2022	2022	2022	2021	2021	2021
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gosodiadau tai cymdeithasol (nodyn 2b)	72,883	(59,274)	13,609	67,917	(54,167)	13,750
Gweithgareddau tai cymdeithasol eraill						
Rhodd Cymorth	2,043	-	2,043	1,834	-	1,834
Gwarged gwerthu asedau sefydlog	-	-	17,401	-	-	1,221
Colled ar werthu asedau sefydlog eraill	-	-	(499)	-	-	-
Gweithgareddau y tu allan i faes y tai cymdeithasol						
Gosod eiddo	48	(53)	(5)	52	(52)	-
Arall	2,077	(2,155)	(78)	1,901	(2,099)	(198)
Cyfanswm	77,051	(61,482)	32,471	71,704	(56,318)	16,607

Gweler cysoniad o'r cyfrifon rheoli yn nodyn 2(c).

2 Dadansoddiad o drosiant a chostau (parhad)

(b) Manylion incwm a gwariant gosod eiddo tai cymdeithasol

	Y GRŴP A'R GYMDEITHAS			
	Anghenion cyffredinol a thai gwarchod £'000	Llety a chymorth £'000	2022 Cyfanswm £'000	2021 Cyfanswm £'000
Incwm				
Rhent derbyniadwy	60,742	1,541	62,283	59,321
Incwm tâl gwasanaeth	7,188	-	7,188	5,381
Incwm grant ar gyfer gwasanaethau cymorth	-	8	8	16
Amorteiddio tai cymdeithasol a grantiau eraill y llywodraeth	3,404	-	3,404	3,199
Trosiant o osod tai cymdeithasol	71,334	1,549	72,883	67,917
Costau gweithredu				
Rheoli gweithrediadau	(6,305)	(138)	(6,443)	(6,204)
Gwasanaethau rheoli tenantiaeth	(6,384)	(140)	(6,524)	(6,430)
Taliadau gwasanaeth	(9,112)	-	(9,112)	(6,583)
Cynnal a chadw arferol	(15,273)	(334)	(15,607)	(14,262)
Gwariant ar gyfer atgyweiriadau mawr	(6,298)	(138)	(6,436)	(6,508)
Rheoli amnewid cydrannau	(1,280)	(28)	(1,308)	(1,283)
Drwgddyledion	(6)	-	(6)	(33)
Dibrisiant eiddo tai	(11,600)	(254)	(11,854)	(11,115)
Costau cau cynlluniau	-	-	-	-
Datblygiadau a chostau eraill	(1,942)	(42)	(1,984)	(1,749)
Costau gweithredu ar osod tai cymdeithasol	(58,200)	(1,074)	(59,274)	(54,167)
Gwarged gweithredu ar osod tai cymdeithasol - Y Gymdeithas	13,134	475	13,609	13,750
Addasiad Rhodd Cymorth (nodyn 2a)	2,043	-	2,043	1,834
Gwarged gweithredu ar osod tai cymdeithasol - Grŵp	15,177	475	15,652	15,584
Memorandwm o wybodaeth:				
Rhent ag ildwyd oherwydd eiddo gwag	765	(2)	763	852

Caiff costau gwaith cynnal a chadw a chynnal a chadw eu cyfrif fel costau a gafwyd ar sail y gwaith a oedd cael ei wneud ar ddyddiad y fantolen.

2 Dadansoddiad o drosiant a chostau (parhad)

(c) Dadansoddiad o incwm a gwarant

	2021 Cyfrifon Rheoli £'000	2022 Cyfrifon Rheoli £'000	Dadansoddiad o		Y GYMDEITHAS	
			Rhodd Is-gwmni i rhiant £'000	weithgareddau tu allan i faes tai cymdeithasol £'000	Dyrannu costau canolog £'000	2022 Cyfanswm £'000
Incwm						
Rhent derbyniadwy	59,178	62,156	-	127	-	62,283
Incwm tâl gwasanaeth	6,497	8,388	-	(1,200)	-	7,188
Mân incwm preswylwyr	-	127	-	(127)	-	-
Incwm cefnogi pobl	16	8	-	-	-	8
Incwm Amrywiol	635	569	-	(569)	-	-
Amorteiddiad	-	-	-	-	3,404	3,404
Rhodd Cymorth	-	-	2,043	-	-	2,043
Gosodiadau tu allan i tai cymdeithasol	-	-	-	48	-	48
Gweithgareddau tu allan i tai cymdeithasol	-	-	-	2,077	-	2,077
Trosiant	66,326	71,248	2,043	356	3,404	77,051
Costau gweithredu						
Rheoli gweithrediadau	-	-	-	-	(6,443)	(6,443)
Gwasanaethau rheoli tenantiaethau	-	-	-	-	(6,524)	(6,524)
Costau ariannol tâl gwasanaeth	(5,390)	(7,777)	-	976	(1,811)	(8,612)
Dibrisiant tâl gwasanaeth	(465)	(515)	-	15	-	(500)
Cynnal a chadw arferol	(11,682)	(12,914)	(1,315)	-	(1,378)	(15,607)
Gwaith trwsio mawr a chynnal a chadw cylchol	(5,313)	(4,899)	(442)	-	(1,095)	(6,436)
Rheoli amnewid cydrannau	-	-	-	-	(1,308)	(1,308)
Drwgddyledion	(33)	(6)	-	-	-	(6)
Dibrisiant eiddo tai	(11,114)	(11,854)	-	-	-	(11,854)
Datblygiadau a chostau eraill	-	-	(286)	-	(1,698)	(1,984)
Costau Staff (ac eithrio, staff safle)	(14,787)	(14,109)	-	-	14,954	845
Gorbenion	(4,341)	(5,649)	-	-	4,805	(844)
Dibrisiant eraill	(1,014)	(1,360)	-	-	1,360	-
Amorteiddiad	3,199	3,404	-	-	(3,404)	-
Gosodiadau tu allan i tai cymdeithasol	-	-	-	-	(53)	(53)
Gweithgareddau tu allan i tai cymdeithasol	-	-	-	(1,347)	(809)	(2,156)
